



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Adolygu a Gwerthuso'r
Broses o Fonitro Gwaith
Rheoli Datblygiad

Rhaglen Datblygu Polisi Cynllunio Cymru



Rhaglen Datblygu Polisi Cynllunio Cymru

Mae'r prosiect ymchwil hwn wedi'i gomisiynu a'i gynnal fel rhan o Raglen Datblygu Polisi Cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru. Amcan y rhaglen, a sefydlwyd yn wreiddiol yn 2000 o dan y teitl 'Rhaglen Ymchwil Gynllunio Cymru', yw ymateb i'r angen i ddatblygu polisi cynllunio defnydd tir sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn cyd-destun egwyddorion a blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad.

Is-adran Gynllunio Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am weinyddu Rhaglen Datblygu Polisi Cynllunio Cymru a sicrhau bod unrhyw waith ymchwil neu waith gweithredu polisi yn parchu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn ymateb i'w hanghenion.

Adolygu a Gwerthuso'r Broses o Fonitro Gwaith Rheoli Datblygiad

Trwy gomisiwn allanol y cynhelir yr ymchwil yn bennaf, er bod rhai prosiectau yn cael eu cynnal ar y cyd â sefydliadau eraill.

Amcanion Allweddol

- Canolbwyntio ar faterion sy'n unigryw i Gymru
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi cynllunio
- Darparu gwybodaeth am reoli gwaith-datblygu polisi cynllunio defnydd tir
- Datblygu canllawiau arferion gorau

Yn 2005 cynhaliwyd adolygiad pum mlynedd o'r rhaglen ymchwil. Nododd hwn nifer o argymhellion gan gynnwys ailenwi'r rhaglen i'w gwneud yn bosibl, nid yn unig ariannu ymchwil i gynllunio, ond hefyd weithredu'r polisi a gâi ei ddatblygu yn ei sgil.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am Raglen Datblygu Polisi Cynllunio Cymru yn:
www.wales.gov.uk/planning

Os oes gennych gwestiynau am y rhaglen, anfonwch nhw at
Jonathan Fudge,
Uwch Swyddog Ymchwil,
Y Gangen Polisi Cynllunio,
Yr Is-adran Gynllunio,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ.

Ffôn: 029 2082 6961

Ffacs: 029 2082 5622

E-bost: planning.division@wales.gsi.gov.uk

Llywodraeth Cynulliad
Cymru

**Adolygiad a
Gwerthusiad o'r Broses
Monitro Ystadegau a
Rheoli Datblygiad**

Adroddiad Terfynol

Llywodraeth Cynulliad
Cymru

**Adolygiad a
Gwerthusiad o'r Broses
Monitro Ystadegau a
Rheoli Datblygiad**

Adroddiad Terfynol

Mai 2008

Ove Arup & Partners Ltd
13 Fitzroy Street,
Llundain W1T 4BQ
Ffôn +44 (0)20 7636 1531 7755 2451
www.arup.com

Mae'r adroddiad hwn yn cymryd
cyfarwyddiadau a gofynion arbennig ein
cleientiaid i ystyriaeth. Ni fwriedir i'r
adroddiad fod ar gyfer ac ni ddylid
dibynnu arno gan unrhyw drydydd parti
ac ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb i
unrhyw drydydd parti.

Rhif y gwaith 122639/00

Cynnwys

		Tudalen i
Crynodeb Gweithredol		
1	Rhagarweiniad	1
1.1	Pwrrpas a chwmpas yr Adolygiad	1
1.2	Cyd-destun	1
1.3	Golwg gyffredinol ar y dull	1
1.4	Strwythur yr adroddiad	2
1.5	Cydnabyddiaethau	2
2	Methodoleg	3
2.1	Golwg gyffredinol	3
2.2	Rhan 1: Chwilio am ofynion o fewn LICC	3
2.3	Rhan 2: Arolwg awdurdodau lleol	3
2.4	Rhan 3: Trafodaethau â'r rhanddeiliaid	3
2.5	Rhan 4: Asesiad ac argymhellion	4
3	Safbwynt y Llywodraeth	6
3.1	Rhagarweiniad	6
3.2	Cymru'n Un	6
3.3	Cynllunio: cyflenwi i Gymru	6
3.4	Gwerth gorau a dangosyddion perfformiad statudol	7
3.5	Adroddiadau Monitro Blynnyddol (AMRs)	8
3.6	Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygiad	9
3.7	Trafodaethau gyda staff polisi cynllunio LICC	9
3.8	Dulliau polisi cymharol mewn mannau eraill ym Mhrydain	14
4	Safbwynt yr Awdurdod Lleol	16
4.1	Arolwg awdurdodau lleol	16
4.2	Seminarau rhanddeiliaid ac ymweliadau astudiaethau achos	19
4.3	Y Ffurflenni a Chanllawiau	21
4.4	Y Broses o reoli perfformiad a chynhyrchu ffurflenni	22
4.5	Gwybodaeth a Gofnodir ar Hyn o Bryd gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru	23
5	Gwerthuso Dewisiadau ac Argymhellion	24
5.1	Rhagarweiniad	24
5.2	Egwyddorion ar gyfer Newid	24
5.3	Matrics Asesiad	24
6	Casgliadau a Gweithredu	35
6.1	Newidiadau a awgrymir i'r Ffurflen a'r Canllawiau	35

6.2	Cyflwyno'r gweithredu	35
6.3	Gweithgor data	35
6.4	Ffurflenni electronig	35
6.5	Rhoi cyfansymiau gros ar gyfer rhai nad ydynt yn ymateb	36
6.6	Rôl i'r LDGU	36
6.7	Cyhoeddi a dadansoddi	36

A1 Ffurflen DCQS Cyfredol a Chanllawiau

A2 Enghraifft o Ddatganiad Ystadegol LICC

A3 Ffurflen Arolwg Awdurdod Lleol wedi ei Hanodi

A4 Ffurflen Gwneud Arolwg Awdurdodau Lleol

A5 Rhai a fynychodd Seminarau

A6 Ffurflenni a Chanllawiau Arolygon Chwarterol a Blynnyddol Arfaethedig ynglŷn â Rheoli
Datblygiad

Crynodeb Gweithredol

Mae'r astudiaeth hon yn adolygu'r Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygiad cyfredol Mae'n asesu cynnwys a defnydd yr arolwg presennol, yn edrych ar anghenion data llywodraeth ac awdurdodau lleol, ac yn argymhell ffordd ymlaen. Rydym wedi ceisio diffinio set o ystadegau sy'n rhoi golwg fwy cynhwysfawr ar lwyth gwaith a pherfformiad awdurdodau, ond heb fesur pob agwedd o'u dyletswyddau cynllunio. Rydym hefyd wedi chwilio am set o fesurau sy'n dangos allbynnau allweddol y system gynllunio, yn arbennig y rhai hynny sy'n ymwneud â thai a newid hinsawdd.

Ar ôl rhoi ystyriaeth i farn llywodraeth ac awdurdodau lleol rydym yn argymhell -

- Bod yr arolwg chwarterol yn parhau yn ddarostyngedig i ddiwygiadau cymharol fach nad ydynt yn rhoi baich anghyfartal ar awdurdodau lleol
- Dim ond yn flynyddol y dylid casglu rhywfaint o ddata newydd
- Paratoi'r canllawiau integredig newydd i gyd-fynd â'r DCQS diwygiedig.
- Sefydlu gweithgor data rhwng LICC/awdurdodau lleol/darparwyr meddalwedd i fwrw golwg dros a llywio'r gofynion a chasglu'r data, cyflwyno'r ffurflen newydd a'r cynllun peilot yn gyntaf a sefydlu gwiriadau ar ansawdd data.
- Cyflwyno cyflwyniad electronig, gyda ffurflenni i LGDU i'w prosesu, a
- Mae sylwebaeth yn mynd i gyd-fynd â chyhoeddi data canlyniadau gan LICC yn y dyfodol sy'n ystyried y ffigurau diweddaraf yn erbyn tueddiadau tymor hir.

Y newidiadau i'r DCQS a argymhellwn yw casglu'r setiau data chwarterol canlynol –

- Ceisiadau ar gyfer datganiadau amgylcheddol (h.y. gyda tharged 16 o wythnosau)
- Ceisiadau gyda rhwymedigaeth cynllunio i gyd-fynd â nhw
- Ceisiadau sydd wedi mynd y tu hwnt i'r targedau 8,13 ac 16 wythnos
- Ceisiadau am ddatblygiad mewn gorlifdir
- Caniatâd am safleoedd newydd a phresennol i sipsiwn/teithwyr, a
- Chyfes o ddangosyddion ynglŷn â gorfodi.

Rydym hefyd yn argymhell casglu'r setiau data blynyddol canlynol -

- Penderfyniadau pwyllgorau yn erbyn argymhellion swyddogion
- Llwyth achos ar gyfer pob swyddog achos
- Ceisiadau yn ymwneud â mwynau gan weithrediadau yn ymwneud ag ynni/heb fod yn ymwneud ag ynni a rhai yn ymwneud ag arwynebedd/echdynnol
- Ceisiadau ynni adnewyddol yn ôl ffynhonnell egni a chapasiti
- Data deilliannau am gartrefi ac arwynebedd llawr yn ôl defnydd
- Newid net mewn caeau chwarae a mannau agored, a
- Chaniatadau ar safleoedd meysydd llwyd a meysydd glas.

Fel yn awr, byddai'r holl ddata yn cael ei gasglu ar sail nifer y ceisiadau, yn dangos y niferoedd a ganiatawyd a'r rhai hynny a wrthodir. Byddai gwybodaeth ychwanegol, er enghraifft ynglŷn â'r perygl llifogydd, natur y ceisiadau mwynau, a ffynonellau egni, hefyd yn ffurfio rhan o'r ffurflen.

Rydym yn argymhell dileu'r arfer o gasglu data am ymadawiadau.

Yn olaf, awgrymwn y dylai LICC ystyried y ffordd orau o sicrhau gwell gwybodaeth am incwm ffioedd cynllunio awdurdodau.

Mae ffurflenni blyneddol a chwarterol newydd a chanllawiau i gyd-fynd â hwy yn cael eu cynnwys yn Atodiad A6.

1 Rhagarweiniad

1.1 Pwrpas a chwmpas yr Adolygiad

Yn ôl y briff ar gyfer yr astudiaeth hon:

“Yn 2002 cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru ac mae Llywodraeth y Cynulliad ers hynny wedi lansio'r rhaglen Cynllunio: Cyflenwi i Gymru. Cyhoeddwyd polisi newydd a Nodiadau Cyngor Technegol gan yr Isadran Cynllunio ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu ei bolisiau corfforaethol strategol ymhellach. Mae'r diddordeb felly mewn cipio a monitro gwybodaeth ychwanegol i gefnogi a dangos tystiolaeth o'r newidiadau polisi hyn wedi cynyddu.

Cesglir ystadegau Rheoli Datblygiad hefyd fel rhan o Ddangosyddion Perfformiad cenedlaethol Cymru. Pwrpas proses y ffurflenni chwarterol Rheoli Datblygiad yw casglu ystadegau i fonitro perfformiad Rheoli Datblygiad awdurdodau cynllunio lleol.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bwriadu adolygu proses rheoli datblygiad cyfredol y ffurflenni chwarterol rheoli datblygiad a darparu cyngor am gasglu ystadegau rheoli datblygiad yn y dyfodol.”

O fewn cwmpas, dylai'r adolygiad gynnwys:

- Adolygiad o'r ffurflenni cyfredol a'r ystadegau a gasglwyd
- Adolygiad o'r cyd-destun sy'n newid o ran polisi cynllunio i nodi ble mae angen casglu data newydd
- Ystyried pa ystadegau a all fod yn briodol i'w cynnwys ar pro-forma diwygiedig
- Ymgynghori gyda rhanddeiliaid i ystyried ymarferoldeb a chost
- Cyngor ynglŷn â gweinyddu'r broses yn y dyfodol, a
- Chyngor ynglŷn â diwygio ystadegau sy'n ofynnol i fonitro perfformiad o ran rheoli datblygiad a nifer y mathau penodol o geisiadau y penderfynir yn eu cylch.

1.2 Cyd-destun

Yr Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygiad (mae'r ffurflen a'r nodiadau canllaw i gyd-fynd â hwy yn Atodiad A1) yw'r brif ffynhonnell data ar gyfer LICC ynglŷn â nifer a chyfansoddiad ceisiadau cynllunio, a'r cyflymder y penderfynir yn eu cylch gan awdurdodau lleol.

Mae'r tirlun o ran polisi cynllunio yn esblygu i gynnwys nifer o feysydd newydd fel pwysigrwydd ynni adnewyddadwy, rheoli gwastraff, cyflenwad tai a chynaliadwyedd datblygiad, ac mae ar LICC angen sail tystiolaeth ar gyfer polisi newydd. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio data yn gynyddol i fesur y modd y mae perfformiad yn gwella a chanlyniadau'r gwasanaeth cynllunio.

Mae unrhyw adolygiad yn ymwneud â chasglu data yn codi cwestiynau ynglŷn ag ansawdd, dadansoddiad, digonolrwydd y rhychwant a chasglu data electronig.

1.3 Golwg gyffredinol ar y dull

Llywiwyd ein dull gan nifer o ofynion cyffredinol:

- Gofyniad i fod yn 'ffit ar gyfer pwrpas' ac i fodloni gofynion y briff, drwy gasglu ac asesu tystiolaeth a phrofiad digonol i ganiatáu adolygiad trwyadl a chadarn o ansawdd.

- Yr angen i ymgysylltu â llunwyr polisi cynllunio LICC i sicrhau bod yr adolygiad yn bodloni eu pryderon o ran casglu data.
- Yr angen i gysylltu ag Awdurdodau Lleol fel rhanddeiliaid allweddol a chyflenwyr a defnyddwyr y data i gael mewnwediadau o safbwynt gweithrediadol..
- Angen sicrhau bod asesiad yn cyd-fynd â 'phriodoleddau ansawdd' Eurostat i'r graddau y mae hyn yn ymarferol ac yn ystyrlon. Mae'r priodoleddau ansawdd yn cynnwys perthnasedd, cywirdeb, prydlondeb, hygyrchedd, cymaroldeb cydlynad a chyflawnder.
- Yr angen i sicrhau bod y newidiadau sy'n digwydd mewn technoleg sy'n berthnasol i'r briff yn cael eu defnyddio'n llawn a bod y synergïau perthnasol yn cael eu datblygu.

1.4 Strwythur yr adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

Adran 2 – yn amlinellu methodoleg yr astudiaeth.

Adran 3 – yn darparu safbwynt LICC ynglŷn â chasglu data am faterion cynllunio

Adran 4 – yn rhoi barn yr awdurdod lleol ynglŷn ag ystadegau cynllunio

Adran 5 – yn ystyried yr ystod lawn o newidiadau i ddata a awgrymwyd i ni yn ystod yr adolygiad, ac

Adran 6 – yn cynnwys ein casgliadau am faterion cysylltiedig yn ymwneud â gweithredu.

Ceir pum atodiad.

1.5 Cydnabyddiaethau

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ym mis Chwefror 2007 oddi wrth Arup. Roedd y tîm yr astudiaeth yn cynnwys: Christopher Tunnell, Kieron Hyams a Matthew Wright (Arup); a Chris Morrey a Richard Neville-Carlé (ymgyngorwyr annibynnol).

Cefnogwyd y tîm gan Grŵp Llywio a enwebwyd gan LICC, oedd yn cynnwys: Richard Spear, Jonathan Fudge a Jeff Phillips (LICC), Ralph Bourke (POSW Caerffili) a Robin Davies (Uned Data Llywodraeth Leol).

Rydym yn ddiolchgar i nifer o lunwyr polisi o fewn LICC am eu cyngor defnyddiol a'u cefnogaeth yng nghamau dechreuol yr astudiaeth, ac am gydweithrediad awdurdodau lleol a ddarparodd ffurflenni arolwg, a fynychodd seminarau'r astudiaeth, ac a fu'n destun astudiaethau achos (Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Fynwy, Parc Cenedlaethol Eryri a Wrecsam).

2 Methodoleg

2.1 Golwg gyffredinol

Roedd y fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr adolygiad yn cynnwys pedwar o gamau allweddol:

Rhan 1 – Chwilio am ofynion o fewn LICC

Rhan 2 – Arolwg Awdurdodau Lleol

Rhan 3 – Trafodaethau â'r rhanddeiliaid

Rhan 4 – Asesiad ac argymhellion

Cyflwynwyd methodoleg gymysg o arolygon, holiadur, cyfweiliadau yn y gymuned a seminarau rhanddeiliaid i ymdrin â materion meintiol ac ansoddol. Cyfrannodd 90% o awdurdodau lleol at ddarganfyddiadau'r adroddiad hwn, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol yn LICC ac ymysg darparwyr meddalwedd.

2.2 Rhan 1: Chwilio am ofynion o fewn LICC

Bu i staff polisi cynllunio LICC gyflwyno eu gofynion data parhaus a'r rhai a ragfynegir. Casglwyd y gofynion data yn gyffredinol drwy gyfweiliadau wyneb yn wyneb. Roedd y rhain yn ffurfio sail i arolwg awdurdodau lleol a oedd yn adlewyrchu'r data cyfredol a phosibl.

2.3 Rhan 2: Arolwg awdurdodau lleol

Ymdriniodd arolwg ar ffurf holiadur i awdurdodau lleol ag ystod eang o faterion ynglŷn â chasglu data, gan gynnwys:

- Beth yw'r baich o ran amser/cost o gasglu'r data cyfredol?
- Pa mor ddefnyddiol yw'r data i'r awdurdod lleol?
- Pa welliannau neu newidiadau yr hoffent eu gweld?
- Sut mae'r awdurdod yn sicrhau bod y dyddiad hwyluso cywir yn cael ei roi ar y system?
- Pa gyfle sydd yna i ychwanegu data sydd eisoes wedi ei gofnodi gan yr awdurdod ond nad yw'n rhan o'r ffurflen ar hyn o bryd?
- Pa feysydd yr hoffent eu gweld yn cael eu cofnodi?
- Beth fyddai effaith unrhyw newidiadau yn ei olygu i'r awdurdod?
- Beth fyddai goblygiad newidiadau i'r awdurdod lleol a sut y gellid eu cyflawni ac am ba gost ac ati?

Anfonwyd yr arolwg at bob un o'r 22 o Awdurdodau Unedol a'r 3 Pharc Cenedlaethol yng Nghymru. Y gyfradd ymateb oedd 76%. Trwy gydol cyfnod yr arolwg sefydlwyd cyfleuster ymateb i gynnig cymorth a chefnogaeth i'r rhai oedd yn llenwi ffurflen i sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o ffurflenni o ansawdd yn cael eu dychwelyd.

2.4 Rhan 3: Trafodaethau â'r rhanddeiliaid

I ychwanegu at yr arolwg bu i ni fabwysiadu dull mewn dau gam o ymgysylltu â'r rhanddeiliaid. Amcan y cam hwn oedd datblygu dealltwriaeth ddyfnach o fecanweithiau proses y ffurflenni, materion yn ymwneud â TG a materion eraill, fel dod o hyd i adnoddau.

2.4.1 Astudiaethau achos awdurdodau lleol

Bu i ni gynnal chwech o astudiaethau achos ar ffurf cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda staff awdurdodau lleol, rheolwyr rheoli datblygu a rheolwyr data-basau yn bennaf. Dewiswyd y sampl ar sail y math o awdurdod, y lleoliad, graddfa'r llwyth achos, a'r systemau cyfrifiadurol cefnogol (i sicrhau bod ystod o systemau yn cael eu cynrychioli).

Bu i'r trafodaethau ganiatáu ymchwiliad mwy manwl i nifer o bynciau, gan gynnwys:

- Adnoddau staff a ddyrannwyd i gofnodi a dychwelyd gwybodaeth ystadegol
- Costau cyfalaf a refeniw yn gysylltiedig â chofnodi a monitro data
- Systemau a phrosesau yn eu lle ar gyfer cofnodi, gwirio a dilysu data
- Y defnydd a wneir o ddata wedi ei recordio ar hyn o bryd
- Defnyddioldeb potensial data posibl
- Graddfa a natur systemau swyddfa gefn a gallu o ran e-gynllunio.

2.4.2 Seminarau

Cynhaliwyd dau grŵp ffocws yn seiliedig ar seminarau yn Abertawe (De Cymru) a Llanellwyr (Gogledd Cymru). Gwahoddwyd pob un o'r Awdurdodau Unedol a Pharciau Cenedlaethol i fynychu'r naill neu'r llall o'r ddau seminar. Yn ychwanegol, gwahoddwyd swyddogion polisi cynllunio o LICC, aelodau o Grŵp Llywio'r Adolygiad a darparwyr meddalwedd.

Rhoddodd y seminarau olwg gyffredinol i'r rhai oedd yn bresennol ar y rhaglen arolwg, y dull a gymerwyd at gasglu gwybodaeth, a chrynodeb o ddarganfyddiadau yn seiliedig ar y data a gasglwyd hyd at y cyfnod hwnnw. Roedd y seminarau yn hwyluso dadl ymysg y rhanddeiliaid mewn perthynas â nifer o faterion allweddol, gan gynnwys:

- Argraffiadau cyffredinol a goblygiadau darganfyddiadau hyd yma
- Materion penodol ynghylch casglu data yn ymwneud â:
 - o Gorfodi
 - o Cymhlethdod y ceisiadau, er enghraifft Asesiadau Effaith Amgylcheddol, Adwerthu a Thrafnidiaeth a goblygiadau cynllunio
 - o Gwybodaeth am apeliadau
 - o Incwm o ffioedd cais cynllunio
- Camau gweithredu y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt
- Pa feysydd yw'r rhai pwysicaf i'w hychwanegu neu eu dileu
- A ddylai data 'deilliannau' gael ei gofnodi
- Gweithredu a materion ymarferol
- Materion technegol (gan gynnwys systemau cymorth a chasglu)
- Goblygiadau o ran amser a chost

2.5 Rhan 4: Asesiad ac argymhellion

Roedd y camau casglu gwybodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar nodi gofynion data a gwybodaeth ynglŷn â'r defnydd tebygol a'r effaith o weithredu'r gofynion hynny. Yna cafodd y rhain eu hasesu, ac wrth dynnu ar ddarganfyddiadau'r arolwg a thrafodaethau rhanddeiliaid, dyfeisiwyd set derfynol o argymhellion, yn tynnu ar set o newidiadau potensial a welwyd fel rhai cyflenwol ac yn taro cydbwysedd rhwng

bodloni'r gofynion dechreuol, ychwanegu gwerth at fonitro a rheoli perfformiad awdurdodau lleol, a chydbwyso'r baich tebygol gyda gwerth cyffredinol i lywodraeth ac awdurdodau.

3 Safbwynt y Llywodraeth

3.1 Rhagarweiniad

Mae'r adran hon o'r astudiaeth yn edrych ar safbwynt LICC ynghylch casglu data a'r defnyddiau y gellid ei wneud ohono. Rydym yn tynnu ar ymarferion perthnasol eraill i gasglu data a gynhaliwyd yn Lloegr a'r Alban.

Digwyddodd yr arolwg yn ystod cyfnod o newid sylweddol yn agwedd LICC at fonitro'r system cynllunio a'i ddeilliannau. Yn gyfochrog â'r adolygiad hwn, cyhoeddodd LICC 'Cymru'n Un' ym Mehefin 2007, ymrwymiad gwleidyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd newid ei hethol. Mae LICC yn bwriadu ystyried y rhychwant ar gyfer gwneud mwy o ddefnydd o dystiolaeth ystadegol a thystiolaeth arall wrth asesu pa mor effeithiol yw polisi presennol a datblygu polisi newydd.

3.2 Cymru'n Un

Cyhoeddodd arweinwyr Cynulliad Cenedlaethol Llafur a Phlaid Cymru 'Cymru'n Un', agenda blaengar ar gyfer Llywodraeth Cymru ym Mehefin 2007.

Mae'n cyflwyno rhaglen eang i wella bywydau pobl Cymru a gwneud Cymru yn lle gwell i fyw a gweithio ynddi. Mae ei gynfas yn eang iawn, yn cynnwys pob agwedd ar bwerau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn crybwyll rôl y system gynllunio yn benodol. Ymysg cyfeiriadau penodol sydd â dimensiynau gofodol ceir y canlynol:

- Cyflenwi gwasanaethau yng nghyd-destun Cynllun Gofodol Cymru
- Galluogi datblygiad economaidd a buddsoddi drwy'r wlad, yn arbennig Blaenau'r Cymoedd a Môn a Menai
- Cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy ar draws Cymru dros y pedair blynedd nesaf
- Newid manylion y system gynllunio mewn perthynas â thai fforddiadwy, asesiadau effaith ieithyddol a chartrefi gwledig
- Gwellu trafnidiaeth ranbarthol a chenedlaethol
- Codi safonau iechyd, yn arbennig drwy asesiadau effaith iechyd
- Diwygio gwasanaethau addysg a phersonol, ac
- Ymdrin â newid hinsawdd, gan gynnwys cynhyrchu a defnyddio ynni cynaliadwy.

Mae amseriad yr adolygiad hwn yn rhoi cyfle i asesu a all data ystadegol a gesglir oddi wrth awdurdodau lleol gynorthwyo i ddatblygu a monitro polisi sy'n cyflawni'r amcanion a gyflwynir yn 'Cymru'n Un'.

3.3 Cynllunio: cyflenwi i Gymru

Mewn cynllunio, mae LICC yn gweithio'n agos gyda llawer o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol a'r Arolygiaeth Cynllunio i sicrhau y bydd y system cynllunio:

- Yn agored, yn deg ac yn dryloyw
- Yn ysbrydoli hyder cyhoeddus ac mewn busnes
- Yn cyflenwi gwell ansawdd a chyflymder
- Yn integreiddio gyda chynlluniau a phrosesau a chamau gweithredu eraill

- Yn bodloni amcanion Cynulliad Cenedlaethol Cymru a osodwyd yn y Cynllun i Gymru.

Bwriedir i Cynllunio: Cyflawni dros Gymru sicrhau bod LICC ac awdurdodau lleol yn parhau i ddatblygu ar y llwyddiant a gafwyd a chodi safonau ar draws Cymru.

Yn 2006 gwnaeth Carwyn Jones, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ddatganiad yn rhoi adroddiad ynglŷn â chynnydd Cynllunio: Cyflawni dros Gymru. Cyfeiriodd at gynnydd ynglŷn â chynlluniau a wneir gan awdurdodau lleol, polisi cenedlaethol a lunnir gan LICC a chynlluniau fel adnoddau cyflenwi ychwanegol. Ni chrybwyllwyd rheoli datblygiad yn benodol, na pherfformiad awdurdodau i gyflenwi'r swyddogaeth hon.

3.4 Gwerth gorau a dangosyddion perfformiad statudol

Mae deddfwriaeth Gwerth Gorau yn berthnasol i awdurdodau cynllunio Cymru. Yr amcan lefel uchel yw gwella gwasanaethau awdurdodau lleol.

Mae dangosyddion perfformiad statudol Cymru (WPIs) yn ymdrin â'r ystod lawn o wasanaethau awdurdodau lleol. Y set uchaf o ddangosyddion yw'r 'dangosyddion strategol cenedlaethol'. Yn eu plith ar gyfer 2007/08, nid oes unrhyw ddangosydd yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflenwi'r gwasanaeth cynllunio.

Mae setiau craidd atodol o ddangosyddion yn ymwneud â holl wasanaethau awdurdodau y gall yr awdurdodau eu defnyddio a'u cyhoeddi fel y dymunant.

Dangosir y dangosyddion craidd ar gyfer y gwasanaethau cynllunio yn 2007/08 yn y blwch isod.

Dangosyddion craidd ar gyfer gwasanaethau cynllunio 2007/2008

PLA/004

- a) Canran y ceisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn 13 wythnos
- b) Canran y ceisiadau cynllunio bach a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn 8 wythnos
- c) Canran y ceisiadau cynllunio yn ymwneud â deiliaid tai a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn 8 wythnos
- d) Canran yr holl geisiadau cynllunio eraill a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn 8 wythnos

PLA/002

Canran y ceisiadau ar gyfer datblygiad a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn a gymeradwywyd

PLA/003

- a) Nifer yr apeliadau a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â :

- i) Phenderfyniadau ceisiadau cynllunio
- ii) Rhybuddion gorfodi

- b) Canran yr apeliadau hyn a benderfynwyd a oedd yn cefnogi penderfyniad yr awdurdod, mewn perthynas â:

- i) Phenderfyniadau ceisiadau cynllunio
- ii) Rhybuddion gorfodi

PLA/005

Canran yr achosion gorfodi a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn 12 wythnos o'u derbyn

PLA/006

Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

PLA/007

Nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol fel canran o'r holl unedau tai newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

(Nid yw'r dangosyddion ar gyfer cynllunio wedi eu rhoi'n olynol oherwydd newidiadau yn y gyfres o ddangosyddion dros amser.)

Mae'r dangosyddion hyn yn mesur ystod eang o swyddogaethau o berfformiad systemau (ee, yr amser a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau) i asesiad o ansawdd canlyniadau (fel cyfradd llwyddiant yr awdurdod ar apêl a chyflenwi tai fforddiadwy). Mae disgwyliad y bydd yr wybodaeth am berfformiad sy'n ofynnol gan y dangosyddion hyn yn cael ei defnyddio gan awdurdodau i wella'r modd y maent yn cyflenwi eu gwasanaeth.

3.4.1 Gwella perfformiad awdurdodau

Er bod gwybodaeth yn cael ei chasglu am gyflymder awdurdodau i drin ceisiadau cynllunio, mae'r mesurau o welliant y gwasanaethau a ddisgwyliar o dan Gwerth Gorau yn cael ei ddehongli yn eang gan awdurdodau i gynnwys ffactorau heblaw cyflymder.

Mae llawer o awdurdodau yn ei ystyried fel ffactor allweddol o ran gallu rhagfynegi amseru i sicrhau bod ymgeiswyr yn darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol i benderfynu ar geisiadau ac mewn dull sy'n cynorthwyo trafodaethau'r awdurdodau. Mae awdurdodau felly yn buddsoddi amser cyn y gwneir ceisiadau i alluogi i'r dilysu ddigwydd ac, yn dibynnu ar y diffiniad o'r amser cychwyn gan yr awdurdodau, gall hyn gymryd rhywfaint o'r amser a ddyrannwyd ar gyfer trafod. Er bod cyflymder (neu'r modd y gellir rhagfynegi) y gwasanaethau cynllunio yn rhan o wasanaeth o ansawdd, mae llawer o awdurdodau yn rhoi yr un pwyslais neu fwy o bwyslais ar ansawdd y deilliannau o'r system, yn nhermau'r datblygiad sy'n digwydd a'i ddyluniad a'i leoliad.

3.5 Adroddiadau Monitro Blynnyddol (AMRs)

Mae Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (LICC Mehefin 2006) yn rhoi canllaw manwl i strwythur a chynnwys CDLI Cymru, ac ynglŷn â datblygu targedau monitro a dangosyddion i ddarparu data llinell waelod i gynorthwyo perfformiad CDLI. Mae'n ceisio aleinio cynnwys Adroddiadau Monitro Blynnyddol gyda WPIs. Dywed y dylai dangosyddion ganolbwyntio ar ddeilliannau CDLI a dylent *“fesur gweithgareddau ffisegol mesuradwy sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu polisiau cynllunio”* (tud. 108). Ond mae gorgyffwrdd clir rhwng pynciau y gallai dangosyddion o'r fath ymdrin â hwy a'r mathau o ddata a allai gael eu cofnodi ar gyfer rheoli datblygiad.

Er ei fod yn pwysu am annibyniaeth leol wrth ddatblygu dangosyddion, mae'r Canllaw yn amlinellu nifer o 'ddangosyddion allbynnau craidd' sy'n 'hanfodol i asesu'r modd y gweithredir polisi cenedlaethol'. Maent fel a ganlyn:

Dangosyddion craidd ar gyfer monitro CDLI

Dangosyddion a nodwyd yn Rheoliad 37

- y cyflenwad o dir ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN 1);
- nifer y cartrefi fforddiadwy a rhai i'r farchnad gyffredinol ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal yr ACLI (TAN 2).

Dangosyddion Allbwn eraill ar gyfer CDLI

- cyflenwad/datblygiad o dir net ar gyfer cyflogaeth (ha/m sgwâr);

- cyfanswm y datblygiad, gan gynnwys tai, a ganiateir ar safleoedd wedi eu dyrannu yn y cynllun datblygu fel % o ddyraniadau'r cynllun datblygu ac fel % o gyfanswm y datblygiad a ganiateir (ha ac unedau);
- dwysedd cyfartalog y datblygiad tai a ganiateir ar safleoedd y cynllun datblygu sydd wedi eu dyrannu;
- cyfanswm y datblygiad newydd (ha) a ganiatawyd ar dir wedi ei ddatblygu yn flaenorol (ailddatblygiad ar dir llwyd a throsiadau) a fynegir fel canran o'r holl ddatblygiad a ganiateir;
- cyfanswm y datblygiad adwerthu, swyddfa a hamdden mawr (m sgwâr) a ganiateir yng nghanol trefi wedi ei fynegi fel canran o'r holl ddatblygiad mawr a ganiatawyd (TAN 4);
- cyfanswm y datblygiad (yn ôl categori datblygiad TAN 15 paragraff 5.1) a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdiroedd C1 a C2 nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN 15 (paragraff 6.2 i-v);
- cyfanswm y meysydd glas a'r mannau agored a gollwyd i ddatblygiad (ha) nad yw wedi ei ddyrannu yn y cynllun datblygu;
- cyfanswm yr adnoddau rheoli gwastraff a ganiatawyd a fynegir fel canran o gyfanswm yr adnoddau angenrheidiol, fel y nodwyd hynny o fewn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (TAN 21);
- faint o agregau sylfaenol o dir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau a fynegwyd fel canran o gyfanswm yr adnoddau angenrheidiol fel y nodwyd hynny yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN);
- capasiti datblygiadau Egni Adnewyddadwy (MW) a osodwyd o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol yn ôl math (TAN 8).

Mae nifer o argymhellion a gafodd eu hasesu o fewn yr arolwg hwn yn debyg i rai o'r dangosyddion craidd hyn, a fabwysiadwyd yn ffurfiol gan LICC fel rhan o'r broses o fonitro'r CDLI.

3.6 Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygiad

Mae'r ffurflen a chanllawiau cyfredol DCQS yn Atodiad 1. Mae'n cael ei gynnal gan Isadrann Cynllunio LICC. Mae'r ffurflen yn rhoi golwg ar lefel uchel o nifer y ceisiadau cynllunio sy'n cael eu trin gan bob awdurdod cynllunio lleol, y cyflymder y modd y penderfynir yn eu cylch a'r wybodaeth gyffredinol ynglŷn â natur y datblygiad yn y ceisiadau hynny. Nid oes unrhyw wybodaeth am orfodaeth na ffioedd, nac am allbynnau'r datblygiad arfaethedig yn nhermau, er enghraifft, nifer y cartrefi neu'r arwynebedd llawr.

Yn dilyn derbyn y ffurflenni, gwneir dadansoddiad ystadegol syml. Cyhoeddir hyn ar wefan LICC, heb unrhyw sylwebaeth ar y ffigurau a gyflwynir. Ceir copi o'r wybodaeth ystadegol ddiweddaraf yn Atodiad A2.

3.7 Trafodaethau gyda staff polisi cynllunio LICC

O'n trafodaethau, deawn i'r casgliad mai cymharol ychydig o ddefnydd a wneir ar hyn o bryd o'r data a gesglir yn Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygiad awdurdodau lleol. Nid yw'n cael ei gyhoeddi mewn ffurf gyflawn nac ar ffurf heb ei drin. Nid yw awdurdodau lleol felly yn gallu ei ddadansoddi i bwrpas meincnodi neu i bwrpasau eraill.

Mae'r data a gesglir ar hyn o bryd yn cyd-fynd yn dda iawn â'r cysylltiadau gwaith agos rhwng LICC ac ACLI unigol. Ond o fewn LICC, nid yw'r data yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ond y farn gyffredin oedd fod hwn yn gyfle a allai fod yn cael ei wastraffu. Yn erbyn cefndir o awydd i gryfhau'r sail tystiolaeth ar gyfer llunio polisi, byddai LICC yn croesawu data pellach a fyddai'n ddefnyddiol o ran monitro'r

polisi presennol a phenderfynu ar rychwant a ffurf y polisi newydd pe bai gan awdurdodau lleol systemau yn eu lle i'w gasglu.

Cyflwynir y 'rhestr o ddymuniadau' yn y paragraffau canlynol:

3.7.1 Monitro perfformiad ac incwm ffioedd awdurdodau lleol

Yn nhermau monitro perfformiad ACLI roedd LICC yn awyddus i beidio â chynhyrchu tabl cynghrair o berfformiad, gan gydnabod fod ansawdd a chysondeb yn elfennau gwaith pwysig y gellid peidio sylwi arnynt wrth asesu perfformiad yn ôl ystadegau yn unig. Ond er mwyn helpu i wneud achos dros fwy o adnoddau ar gyfer ACLI drwy gynydd cynyddol mewn ffioedd ceisiadau cynllunio, roedd angen i LICC ddangos bod ymgeiswyr yn derbyn lefel gynyddol o berfformiad a gwell gwasanaeth yn gyffredinol. Roedd casglu data priodol yn hanfodol yn hyn o beth.

3.7.2 Ymadawiadau â pholisi a galw penderfyniadau i mewn

Nid oedd mesur nifer yr ymadawiadau oddi wrth bolisi yn holl bwysig o ran polisi fel ag yr oedd ar un adeg, fel mesur o ansawdd cynlluniau. Byddai casglu data am ymadawiadau yn fater diffiniol, oherwydd y byddai angen i ddata gael ei seilio ar ymadawiadau 'sylweddol' oddi wrth y Cynllun Datblygu. Byddai unrhyw ddiffiniad yn sicr o beri problemau, o ystyried ystod y profiadau a'r cyd-destunau yng Nghymru, ond byddai'n rhaid iddo ganolbwyntio ar drothwyon siopa, defnydd arfaethedig, graddfa neu faint y datblygiad a byddai hefyd yn rhaid iddo ystyried cartrefi unigol yng nghefn gwlad.

Mae penderfyniadau sy'n mynd yn groes i argymhellion swyddogion yn fesur o sut y mae pob awdurdod yn gweithredu. Nid oes unrhyw beth o'i le gyda digwyddiadau o'r fath ac yn wir gellid dweud ei fod yn dangos bod y broses ddemocrataidd yn gweithredu'n briodol. Ond gallai achosion a fyddai yn digwydd dro ar ôl tro ddangos bod chwalfa yn y berthynas rhwng swyddogion ac aelodau.

Am resymau amlwg, roedd yr holl achosion o alw achosion i mewn yn wybyddus i LICC.

3.7.3 Gorfodi

Wrth i'r system cynllunio fynd yn fwy cymhleth ac wrth i syniadau cyfredol feddwl am ymchwilio i ffyrdd o ddileu elfennau llai pwysig o'r system cynllunio y tu allan i reolaeth ffurfiol (oddefol), mae gorfodaeth yn dod yn fwy a mwy pwysig. Atgyfnerthir hyn gan y cynnydd yn lefel yr ohebiaeth y mae LICC yn ei derbyn ynglŷn ag anghydfod rhwng cymdogion ac adroddiadau am dorri ar enghreifftiau o orfodi.

Mae lefelau'r adnoddau a roddir tuag at Gynlluniau Datblygu Lleol ar hyn o bryd yn golygu bod gorfodaeth fel arfer yn cael adnoddau prin yn nhermau'r gweithwyr sydd ar gael o'i gymharu â gofynion cyllidebol o ddarparu swyddogaeth broactif o fonitro a gorfodi, ac mae'n cael ei weld fel swyddogaeth sydd wedi ei hesgeuluso i raddau neu yn un nad yw'n cael adnoddau digonol.

Mae LICC yn cyflawni adolygiad o orfodaeth, a bydd yn asesu ei safiad o ran polisi yn dilyn ei gwblhau, ar ffurf TAN mae'n debyg. Mae'r rhywfaint o ddata gorfodaeth yn cael ei gasglu yn y WPIs. Ond nid yw'r DCQS cyfredol yn cofnodi unrhyw wybodaeth mewn perthynas â gorfodi, ac nid oes unrhyw ddarlun ystadegol clir o'r raddfa, y camau a gymerwyd na'r deilliannau o orfodaeth. Mae hyn yn fwch sylweddol.

3.7.4 Safleoedd sipsiwn a theithwyr

Mae polisi ynglŷn â datblygiad i sipsiwn a theithwyr yn ddarostyngedig i ymgynghoriad ar hyn o bryd fel rhan o gylchlythyr drafft LICC. I fonitro'r polisi hwn sy'n ymddangos, mae angen data er mwyn dadansoddi'r mathau hyn o

benderfyniad o'i gymharu â mathau eraill o ddatblygiad. Ymhellach, o dan Raglen Gwella Cymru (WIP) mae angen mwy sylfaenol am wybod beth yw rhif, natur a chanlyniad ceisiadau o'r fath. Ond gallai cofnodi data yn chwarterol fod yn digwydd yn fwy aml na'r angen, er na fyddai cofnodi data yn flynyddol efallai yn ddigon manwl.

Yn gysylltiedig â hyn, ond gyda rhychwant llawer ehangach, ceir y posibilrwydd o fonitro ethnig drwy setiau data cynllunio sy'n ymdrin â cheisiadau yn y prif lif, camau gorfodi a cheisiadau adolygol fel byddai modd gwneud dadansoddiad o effeithiau niweidiol ar unrhyw grŵp sy'n gwneud cais. Byddai angen i wybodaeth o'r math hwn gael ei chasglu gyda cheisiadau.

3.7.5 Iechyd

Mae iechyd yn faes polisi sy'n datblygu ac yn un sy'n cynnwys cynllunwyr a sgiliau cynllunio yn fwyfwy, er enghraifft drwy ddefnyddio er enghraifft Asesiadau Effaith Iechyd (HIAs). Nid yw'r rhain yn ofnion cyfreithiol, ond mae Cymru'n Un yn eu gwneud yn orfodol ar gyfer ceisiadau am gloddio glo brig. Nid oes unrhyw fesur na dull ar hyn o bryd o asesu cywirdeb neu effeithiolrwydd HIAs. Dylai adolygiad o'r DCQS ystyried y ffordd orau ymlaen.

3.7.6 Tai

Mae gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer anghenion tai a ragwelir yn y dyfodol yn parhau i fod yn destun amlwg yng Nghymru, drwy agenda Cymru'n Un ac o fewn polisi cynllunio, TAN 1 yn bennaf (2006) a TAN 2 (2006). Mae tai fforddiadwy yn flaenoriaeth i LICC ac yn unol â hynny mae ar TAN 1 angen amcangyfrifon o unedau tai fforddiadwy dros gyfnod o 5 mlynedd. Mae CDLI yn cynhyrchu Astudiaethau o Argaeledd Tir ar gyfer Tai sy'n cynllunio ar gyfer y galw a ragfynegir dros y 5 mlynedd nesaf ac sy'n cael eu diweddaru'n flynyddol, gan gynnwys unedau fforddiadwy a gwblhawyd ar bob safle.

Mae monitro data cyfredol yn canolbwyntio ar ragolygon tai. Mae bwlch yn y wybodaeth am dai sydd yn cael ei gyflenwi gan y system cynllunio (yn hytrach na gwybodaeth am dai sy'n cael eu hadeiladu). Mewn gwirionedd byddai angen monitro nifer y tai y rhoddir caniatâd cynllunio iddynt, y gellid ychwanegu ato hefyd drwy gasglu gwybodaeth ynglŷn â maint a daliadaeth – gan gynnwys fforddiadwyedd. Ni ddylai unrhyw gasgliad o'r fath ddyblygu data sydd wedi ei gasglu ar gyfer yr AMR.

3.7.7 Mwynau

Mae MTAN 1 (agregau) a MTAN 2 drafft (glo) yn gwneud gwahaniaeth pendant rhwng mwynau ynni a rhai heb fod yn ymwneud ag ynni (h.y. glo a phob un arall). Ymhellach, mae'r Gyfarwydddeb Gwastraff Mwyngloddio yn dod i rym ym Mai 2008, a bydd angen i LICC ystyried materion ynglŷn â gollwng mwynau yn ogystal ag echdynnu agregau ynni. Mae angen posibl felly am ddata am y rhaniad rhwng mwynau ynni/rhai heb fod ar gyfer ynni (a allai hefyd awgrymu gwaith tanddaearol a gwaith ar yr wyneb) fel y gall LICC fonitro Cynlluniau Rheoli Gwastraff yr holl safleoedd gollwng mwynau yn well.

3.7.8 Goblygiadau cynllunio (cytundebau Adran 106)

Nid yw'n bosib dadansoddi data ynglŷn â nifer y rhwymedigaethau cynllunio a natur y datblygiad y maent yn ymwneud ag ef, na'r effaith y mae goblygiadau cynllunio yn ei gael ar berfformiad rheoli datblygiad CDLI. Oherwydd eu harwyddocâd yn nhermau perfformiad economaidd lleol a pherfformiad adrannau cynllunio penodol, gallai hyn fod yn wendid mawr y dylid ei unioni.

3.7.9 Trafodaethau cyn-ceisiadau

Ystyrir bod trafodaethau cyn-ceisiadau rhwng darpar ymgeiswyr ac ACLI yn arfer gorau gan yr LICC, ond nid oes unrhyw ddata yn cael ei gofnodi ar hyn o bryd ynglŷn â faint o hyn sy'n digwydd. Ymhellach, gall awdurdodau godi tâl am y gwasanaeth hwn. Ond nid oes unrhyw dystiolaeth y gellir ei ddefnyddio i farnu dilysrwydd cwynion i LICC am ansawdd neu argaeledd trafodaethau cyn ymgeisio, gan gynnwys yr amser y mae'n rhaid disgwyl amdanynt. Byddai materion diffiniadol i'w datrys i gofnodi ystadegau ar y pwnc hwn: caiff llawer o geisiadau eu blaenoriaethu gan lawer o ymholiadau cyffredinol (fel er enghraifft graddfa'r datblygiad a ganiatawyd) a fyddai'n annhebyg o ddenu ffi neu o gael eu cofnodi.

3.7.10 Newid hinsawdd

Mae ymdrin â newid hinsawdd yn flaenoriaeth uchel o safbwynt Gweinidogaethol a gweinyddol. Mae cymhwyso'r Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy a mabwysiadu 'Rheol Merton' yn eang ynglŷn ag ynni adnewyddadwy mewn datblygiad newydd yn arwyddion o newid yn null datblygwyr ac awdurdodau. Er mwyn gyrru'r DU tuag at ei ymrwymadau rhwngwladol, mae ar y llywodraeth angen set o fesurau cynnydd a wnaed hyd yma fel un o'r arfau yn ei arfwisg. Mae rhywfaint o ddatblygiad (fel ynni adnewyddadwy a datblygiad ar y gorlifdir) yn brocsiaid ar gyfer llwyddiant polisi ynglŷn â lliniaru ac addasu.

3.7.11 Ynni adnewyddadwy

Dyma ar hyn o bryd yw un o'r meysydd mwyaf amlwg y mae LICC yn gweithio ynddo. Mae ynni adnewyddadwy a'r newid polisi tuag at ddatblygiad cynaliadwy i ymdrin â newid hinsawdd yn debyg o barhau yn flaenoriaeth uchel am y dyfodol rhagweladwy. Felly mae angen data i fonitro cynnydd yn erbyn TAN 8 ac i seilio polisi sy'n datblygu arno.

Mae'r prif ofynion data yn ymwneud â monitro effeithiolrwydd y polisi (y nifer sy'n manteisio ar ffynonellau adnewyddadwy o fewn SSAs TAN8) yn hytrach na pherfformiad awdurdodau unigol. Ond byddai sail yn ymwneud ag awdurdodau penodol yn cynhyrchu darlun mwy manwl.

Byddai angen manylion ynglŷn â chynhyrchu capasiti a ffynonellau ynni. Yn nhermau'r olaf, byddai 'gwynt ar y tir, dŵr, biomas, PV ac arall' yn rhaniad delfrydol gyda 'gwynt ar y tir ac arall' yn isafswm. Byddai niferoedd ceisiadau yn ei gwneud yn bosib i wneud dadansoddiad ar sail ffynonellau ynni tebyg, i weld os neu sut y mae'r caniatadau yn amrywio yn ôl ffynhonnell ynni ac yn ôl awdurdod. Ond byddai'r raddfa y mae ynni adnewyddadwy yn ddefnydd atodol i ddatblygiad arall neu yn ddatblygiad a ganiateir yn ystumio'r set data i ryw raddau.

3.7.12 Llifogydd

Y mater allweddol sydd angen ei fonitro yw datblygiad ar y gorlifdir, yn arbennig mewn perthynas â newidiadau a ragfynegir yn lefelau afonydd o ganlyniad i newid hinsawdd. Gallai'r adolygiad ymchwilio i a allai awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth berthnasol, beth allai'r wybodaeth honno fod a pha mor aml y dylid dychwelyd y wybodaeth at LICC.

3.7.13 Materion gwledig

Nid oes unrhyw ddata yn cael ei gofnodi ar hyn o bryd sy'n darparu rhaniad o ystadegau datblygiad ar gyfer ardaloedd gwledig, nac yn ôl unrhyw fath o ddosbarthiad tirlun. Ymhellach, nid oes unrhyw ddata yn cael ei gasglu yn nhermau datblygiad amaethyddol, y mae rhywfaint ohono y tu allan i reolaeth cynllunio, ac y mae'r gweddill yn tueddu i ganolbwyntio ar weithgareddau arallgyfeirio ar ffermydd. Rydym wedi ystyried yr ychwanegiad posibl hwn at y ffurflenni chwarterol.

3.7.14 Tir a ddatblygwyd yn flaenorol (meysydd llwyd)

Mae Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai a wnaed gan ACLI yn cofnodi'r datblygiad tai ar safleoedd meysydd glas a meysydd llwyd, ond nid yw hyn yn cael ei ymestyn i fathau eraill o ddatblygiad. O dan TAN 1 mae materion diffiniadol yn fwy sefydledig a disgwylir iddynt ddod yn llai pwysig. Tra gallai data wedi ei gyfuno o'r fath gael ei gofnodi'n well drwy ymarferiad monitro o fath AMR, dylai'r astudiaeth ymchwilio i arferion cyfredol a goblygiadau o ran adnoddau.

3.7.15 Chwaraeon, adloniant a thwristiaeth

Yn nhermau chwaraeon ac adloniant, y mae lefelau/defnyddiau caeau chwarae a mannau agored wedi codi ar agenda'r Gweinidogion. Mae angen rhoi ystyriaeth i ba wybodaeth a allai fod yn angenrheidiol (er enghraifft, nifer y ceisiadau, arwynebedd y safle neu'r newid net) a sut y dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio.

Ar gyfer twristiaeth, mae ymgynghoriad wedi dirwyn i ben ynglŷn â'r TAN13 diwygiedig sy'n ymdrin â datblygiad twristiaeth. Mae ymatebion wedi nodi diddordeb cryf yn y maes hwn, ond nid ydynt wedi canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â chasglu data. Gwneir y gwaith o gasglu data ar hyn o bryd ar gyfer twristiaeth ac fe'i cyhoeddir gan Croeso Cymru ac mae'n canolbwyntio ar niferoedd ymwelwyr, eu gwariant, eu tarddiad ac ati yn hytrach nag ar niferoedd o geisiadau perthnasol a phenderfyniadau. I bwrpas monitro Strategaeth Twristiaeth Cymru, mae data Croeso Cymru yn fwy perthnasol.

3.7.16 Telathrebu

Mae datblygu offer telathrebu yn digwydd ar ôl cais cynllunio llawn neu ar ôl hysbysiad cymeradwyo ymlaen llaw lle mae natur y datblygiad yn gwneud y datblygiad yn un a ganiateir o dan y GPDO. Ni chofnodir unrhyw ddata penodol gan ACLI am ddatblygiad o'r fath. Seilir data presennol ar wybodaeth a ddarperir gan y Gymdeithas Gweithredwyr Symudol (MOA) ac fe'i tynnir o'r cynlluniau a gyflwynir gan weithredwyr rhwydwaith unigol. Mae'r modd y mae ACLI yn defnyddio'r wybodaeth hon i asesu datblygiad yn y dyfodol yn amrywio.

Y cwestiwn yw a ddylid casglu mwy o wybodaeth, os mai'r DCQS yw'r dull gorau, a pha ddadansoddiad a fyddai'n cael ei wneud o unrhyw ddata a fyddai'n cael ei gasglu.

3.7.17 Coed a Gwrychoedd

Mae gwrychoedd uchel yn faes diddordeb polisi pwysig. Ar wahân i wybodaeth am apeliadau o PINS, ychydig sy'n wybyddus am y maes hwn ac nid oes unrhyw ddata llinell waelod yn bodoli. Mae'r un peth yn wir am goed (Gorchmynion Gwarchod Coed a cheisiadau i docio/torri ac ati). Mae LICC yn teimlo bod angen diweddarau polisi yn y maes hwn, er y gallai arolwg o achosion am un tro yn unig neu arolwg ad hoc fod yn fwy addas na chasglu data yn barhaus.

3.7.18 Gwastraff

Yn unol â pholisi "Yn Gall gyda Gwastraff" LICC, mae cynllunio a monitro gwastraff yn dod yn fwy a mwy pwysig. Mae awdurdodau Cymru ar hyn o bryd yn cydlynu i gynhyrchu tair Strategaeth Gwastraff Rhanbarthol (y Gogledd, y De Ddwyrain a'r De Orllewin). Cyhoeddir data llawn ynglŷn â gweithredu'r Strategaethau yn flynyddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Pe bai mwy o ddata yn cael ei gasglu drwy'r DCQS, ni ddylai fod yn fwy na nifer y ceisiadau, ac ymdrin yn ogystal â natur y ceisiadau, y tunelli perthnasol a ph'run ai a yw'r cyfleusterau yn rhai gwaredu 'agored' (h.y. tirlenwi) neu waredu 'mewnol' (h.y. llosgi).

Mae amodau a roddir ar ganiatadau cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i ailgylchu gwastraff dymchwel ac mae cynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer Cynlluniau Rheoli Gwastraff ar gyfer safleoedd penodol lle mae dymchwel yn rhan o ddatblygiad sydd â chost gyffredinol o dros £250,000. Gallai felly fod yn angenrheidiol i fonitro polisi drwy nifer y ceisiadau yn ymwneud â dymchwel.

3.7.19 Dŵr

Er bod nifer o faterion yn ymwneud â pholisi cynllunio (gan gynnwys darparu a rheoli dŵr, carthffosiaeth a thrin carthffosiaeth) sydd angen eu monitro, ni chredir mai'r DCQS yw'r ffordd fwyaf priodol o wneud hynny. Mae llawer o seilwaith newydd yn ddatblygiad a ganiateir gan ymgymeryddys statudol ac fe'i derbynnir gan ACLI fel Hysbysiadau y rhoddir Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw iddynt.

3.8 Dulliau polisi cymharol mewn mannau eraill ym Mhrydain

3.8.1 PS1 a PS2 (Lloegr)

Mae'r ffurflenni ystadegau cynllunio (PS) yn Lloegr a weithredir gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ymdrin â meysydd tebyg i DCQS LICC. Ond y mae ffurflenni PS1 a PS2 yn casglu mwy o wybodaeth yn nhermau:

- Penderfyniadau wedi eu dirprwyo
- Penderfyniadau sy'n cymryd rhwng 8 ac 13 wythnos
- Datblygiad yn ymwneud â chaniatâd adeiladau rhestredig
- Hysbysiadau gorfodi a chamau gweithredu
- Datblygiad gan ACLI

Mae adolygiad o'r ffurflenni PS1 a PS2 newydd eu cwblhau, ac mae CLG wedi newid y ffurflenni i nodi ceisiadau

- Sy'n ddarostyngedig i gytundebau perfformiad cynllunio
- Sy'n cymryd mwy o amser i'w penderfynu
- Sy'n rhannu ceisiadau mawr yn ddau ddosbarth
- Ar gyfer lleiniau i sipsiwn a theithwyr, a
- Thystysgrifau datblygiad cyfreithiol.

Yn ychwanegol, mae CLG hefyd yn casglu gwybodaeth am incwm ffioedd ceisiadau cynllunio (drwy'r ffurflenni FEE1 ac FEE2), a hefyd yn benodol mewn perthynas â cheisiadau 'materion Sirol' (drwy'r ffurflen CPS1).

3.8.2 Datganiad o Geisiadau Cynllunio a Benderfynwyd (yr Alban)

Unwaith eto, mae'r ffurflen rheoli datblygiad a gyflenwir gan Weithrediaeth yr Alban yn debyg yn sylfaenol i ffurflen LICC. Y prif wahaniaethau yw:

- Mwy o ddata yn cael ei gasglu am amserlenni ynglŷn â phenderfynu
- Rhaniad gwahanol i'r un traddodiadol sef mawr/bach/arall sydd yn edrych ar fath o ddatblygiad ac nid graddfa
- Cynnwys ceisiadau sylweddol peryglus, ceisiadau am adeiladau rhestredig a datblygu telathrebu
- Cwestiynau am ymdriniaeth y cynllun lleol (poblogaeth yr ymdrinnir â hi gan gynlluniau cyfoes)
- Hysbysiadau a chamau gorfodi

- Datblygiad ar ffermydd a choedwigaeth (hysbysiadau a phenderfyniadau blaenorol)

4 Safbwynt yr Awdurdod Lleol

4.1 Arolwg awdurdodau lleol

Anfonwyd yr arolwg at bob un o'r 22 o Awdurdodau Unedol a'r 3 Pharc Cenedlaethol yng Nghymru (Awdurdodau Cynllunio Lleol – ACLI). Sicrhawyd cyfradd ymateb o 76%. Drwy gyfnod yr arolwg sefydlwyd cyfleuster ymateb i gynnig cyngor a chefnogaeth i'r rhai hynny oedd yn llenwi ffurflen, i sicrhau y derbyniwyd y nifer uchaf posibl o ffurflenni o ansawdd uchel.

4.1.1 Darganfyddiadau

Gellir canfod copi wedi ei annodi o'r arolwg gyda darganfyddiadau wedi eu cyfuno ar gyfer cwestiynau meintiol yn Atodiad A3. Ceir rhestr o'r holl ymatebion yn Atodiad A4.

Defnydd, hygyrchedd a gweinyddiaeth

- Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod wedi defnyddio'r data a gyhoeddwyd gan LICC i'w pwrpasau eu hunain; yn bennaf ar gyfer rhoi adroddiad i'r Pennaethiaid Gwasanaeth, Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd, swyddogion cynllunio a staff, ac i bwrpas rheoli perfformiad mewnol; ac mae'n cael ei ddefnyddio'n llawer llai i bwrpasau cyhoeddusrwydd.
- Edrychwyd ar yr holl ddeunydd a gyhoeddwyd gan fwyafrif yr awdurdodau: ond adroddiadau data yr awdurdodau unigol eu hunain oedd y rhai y chwiliwyd fwyaf drwyddynt am fath o ddata, a dilynwyd hynny gan adroddiadau data am awdurdodau eraill.
- Roedd mynediad at y data wedi ei gyhoeddi yn cael ei ddeall yn glir ymysg awdurdodau. Roeddent i gyd yn gwybod ble i'w ddarganfod ac roedd 74% (14 ACLI) yn ymwybodol o'r amserlen cyhoeddi.
- Dywedodd mwyafrif bach nad oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r data a ddarparwyd yn y cyhoeddiadau/tablau rheoli datblygu; roedd mwyafrif cliriach yn fodlon gyda'r cyflwyniad presennol; a dywedodd 95% o awdurdodau (18 ACLI) mai ffurflen chwarterol roedd yr amledd priodol, gyda dim barn eglur ynglŷn ag amledd gwahanol ymysg y rhai hynny oedd eisiau gweld newid.
- Mae 79% o'r awdurdodau (15 ACLI) yn cadw'r holl ddata ymgeisio a monitro angenrheidiol o fewn un databas/system ddadansoddi; ond dim ond 41% o wybodaeth ar gyfer ffurflenni awdurdodau (8 ACLI) oedd yn cael ei chynhyrchu yn awtomatig gan system swyddfa gefn, gyda 47% arall (9 ACLI) yn gwneud rhan ohono yn awtomatig a rhan ohono â llaw.
- Defnyddiai awdurdodau amrywiaeth o ddarparwyr meddalwedd ar gyfer eu systemau awtomatig. Roedd gan 84% (16 ACLI) gytundebau a oedd yn golygu bod newidiadau i ofynion y llywodraeth yn cael eu darparu heb unrhyw gost ychwanegol. Roedd barn yr awdurdodau yn rhanedig ynghylch a oedd yn ddymunol integreiddio systemau awdurdodau gyda rhai LICC; ac roedd traean o awdurdodau wedi cael problemau yn cyflwyno eu ffurflenni chwarterol yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda phroblemau gyda meddalwedd fel y prif achos.

Cwmpas y ffurflen

- Roedd awdurdodau yn gweld gwerth mewn rhoi gwybodaeth am
 - o Achosion gorfodi (gweler isod)
 - o Apeliadau, a
 - o phenderfyniadau a wneir o dan bwerau wedi eu dirprwyo

- Roedd barn pobl yn fwy cytbwys ynglŷn â gwerth rhoi gwybodaeth am
 - o geisiadau gyda datganiad amgylcheddol i fynd gyda nhw gyda therfyn amser o 16 wythnos;
 - o y rhai hynny yr oedd yn rhaid trafod cytundeb Adran 106 yn eu cylch
 - o achosion a oedd wedi mynd y tu hwnt i dargedau'r 8 a'r 13 wythnos, a
 - o phenderfyniadau nad oeddynt yn cyd-fynd ag argymhellion swyddogion.
- Roedd mwyafrif yr awdurdodau yn gweld ychydig iawn o werth mewn
 - o ailddiffinio dosbarth y prif geisiadau, gan gynnwys prosiectau seilwaith sy'n bwysig yn genedlaethol;
 - o adrodd ynglŷn â chyflawni terfynau amser ynglŷn â phenderfyniadau sydd wedi ei negodi
 - o nodi natur asesiadau sy'n cyd-fynd â cheisiadau;
 - o rhannu achosion sy'n cael eu dwyn ymlaen yn rhai mawr/bach/ ac arall; neu yn ôl math o ddefnydd tir, neu
 - o nodi defnyddiau tir achosion a benderfynwyd o dan bwerau wedi eu dirprwyo, neu'r rhai hynny a oedd wedi eu tynnu'n ôl.

Ffioedd cynllunio

- Roedd mwyafrif yr awdurdodau yn credu y byddai gwybodaeth am gyfanswm y ffioedd a dderbyniwyd yn werthfawr
- Nid oedd awdurdodau yn gweld gwerth mewn
 - o darparu gwybodaeth am ffioedd a dderbynnir yn ôl math o ddefnydd tir
 - o aildrefnu ffurflenni i gategoriâu ffioedd
 - o aildrefnu ffurflenni i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd neu
 - o ychwanegu categori defnydd cymysg.

Mathau o gais

- Roedd mwyafrif yr awdurdodau yn credu y byddai'n werthfawr rhoi gwybodaeth am
 - o hysbysiadau a gymeradwywyd ymlaen llaw
 - o ceisiadau am ddatblygu sy'n digwydd o fewn gorlifdir
 - o ceisiadau a waredwyd yn derfynol
 - o tystysgrifau datblygu cyfreithiol
 - o hysbysiadau dileu gwrychoedd, a
 - o cheisiadau ar-lein
- Roedd barn yn fwy cytbwys ynglŷn â gwerth rhoi gwybodaeth am
 - o gymeradwyo neu amrywio amodau
 - o nodi ceisiadau amaethyddol ar wahân
 - o hysbysiadau ar gyfer mastiau telathrebu o dan 15 metr o uchder
 - o ceisiadau i dorri coed a warchodir gan Orchmynion Gwarchod Coed
 - o ceisiadau annilys (fel y barnwyd i ddechrau, oherwydd gwybodaeth annigonol)

- o erlyniadau yn ymwneud ag adeiladau rhestredig, a
 - o hysbysiadau tir gwastraff yn ymwneud â thir ac eiddo wedi ei esgeuluso (Adran 215)
- Credai mwyafrif yr awdurdodau na fyddai'n werthfawr rhoi gwybodaeth am
 - o Ddata cryno ynghylch mathau o gais sydd yn ymwneud â materion amlinellol/materion llawn/ materion a neilltuir
 - o ceisiadau a benderfynir o dan Ddeddfau heblaw deddfwriaeth gynllunio
 - o ceisiadau mwynau yn ôl gwaith ynni/heb fod yn ymwneud ag ynni neu yn ôl gweithrediadau ar wyneb y tir/echdynol
 - o ceisiadau ynni adnewyddol, wedi eu rhannu yn ôl ffynhonnell ynni
 - o ceisiadau gwaredu gwastraff yn ôl ceisiadau mewmol (llosgi) neu allanol (tirlenwi)
 - o ceisiadau a gyflwynir yn y Gymraeg
 - o cyfuno ceisiadau 'cartrefi, swyddfeydd, diwydiant cyffredinol, adwerthu a pob un arall' i ddim ond ceisiadau mawr/bach/arall
 - o ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig a cheisiadau a gyflwynir gyda chais am ganiatâd adeilad rhestredig
 - o ceisiadau a ailgyflwynir am ddim
 - o anghydfod ynglŷn â gwrychoedd uchel, neu
 - o ganiatadau am safleoedd carafanau sipswn a theithwyr, ac am ddatblygiad ar safleoedd sy'n bodoli'n barod.

Gorfodi

- Credai mwyafrif yr awdurdodau y byddai'n werthfawr cael gwybodaeth am
 - o gwynion a dderbynnir
 - o cwynion lle cymerwyd camau ffurfiol pellach, a
 - o chaniatad penodol i arddangos hysbysebion
- Roedd barn pobl yn gytbwys ynglŷn â'r ffordd o adrodd gwybodaeth am geisiadau am ganiatâd adolygol (gan gynnwys a oedd y cais wedi ei ganiatáu neu ei wrthod)
- Credai mwyafrif yr awdurdodau na fyddai'n werthfawr rhoi gwybodaeth am ble roedd yr ACLI yn gwneud defnydd o bwerau Adran 70 i wrthod penderfynu ar geisiadau.

Penderfyniadau am ymadawiadau, a cheisiadau a gyfeirir ac sy'n cael eu galw i mewn

- Roedd barn yn gytbwys ynglŷn â rhoi gwybodaeth am benderfyniadau oedd yn cael eu cyfeirio ymlaen, penderfyniadau ynglŷn ag ymadawiadau yn ôl categori (cartrefi, swyddfeydd, diwydiant cyffredinol, adwerthu, pob un arall) a cheisiadau wedi eu galw i mewn (gan yr Ysgrifennydd Gwladol).

Data 'Deilliannau'

- Credai mwyafrif yr awdurdodau y byddai'n werthfawr rhoi gwybodaeth am 'nifer' (allbwn datblygiad potensial) caniatadau a ganiateir, er enghraifft, nifer y cartrefi y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer.
- Roedd barn yn gybwys ynglŷn â rhoi gwybodaeth am

- o Datblygiad tai a ganiatawyd yn ôl math, daliadaeth arfaethedig, gan gynnwys defnydd fel ail gartref
- o 'Nifer' (allbwn datblygiad potensial) y caniatadau a roddwyd, h.y. arwyneb llawr yn ôl math o ddefnydd
- o 'Nifer' (allbwn datblygiad potensial) yr ymgeisiwyd amdano yn ogystal â'r 'nifer' y ganiatawyd i roi ystyriaeth i ddiwygiadau
- o 'Nifer' (allbwn datblygiad potensial) o ganiatadau o fewn safleoedd/ardaloedd meysydd llwyd a lleiniau glas, a
- o 'Nifer' yr adnoddau i brosesu gwastraff a gyflenwyd.
- Credai mwyafrif yr awdurdodau na fyddai'n werthfawr rhoi gwybodaeth am
 - o 'Nifer' (allbwn datblygiad potensial) a wrthodwyd, yn ogystal â'r 'nifer' a ganiatawyd
 - o 'Nifer' yr adnoddau i gynhyrchu ynni a gyflenwyd drwy ffynonellau adnewyddadwy yn ôl ffynhonnell, neu
 - o Ceisiadau newid defnydd wedi eu rhannu, yn gofyn am newid net mewn defnydd yn ôl math o ddefnydd.

Rôl ffurflenni

- Roedd barn yn gytbwys ynghylch p'run ai a ddylai DCQS barhau i ganolbwyntio ar ddata'r 'brose' a pherfformiad neu a ddylid ei ehangu i ymdrin â data allbwn hefyd.

4.2 Seminarau rhanddeiliaid ac ymweliadau astudiaethau achos

Rhoddir rhestr lawn o'r rhai a fynychodd y seminarau yn Atodiad 5.

4.2.1 Casglu ffurflenni a data ar hyn o bryd

Dywedodd yr awdurdodau nad oedd y ffurflen gyfredol yn adlewyrchu llwyth gwaith llawn ACLI. Ymysg pethau eraill, nid oedd yn rhoi ystyriaeth i ymholiadau rhagarweiniol ac nid yw trafodaethau cyn anfon cais yn cael eu cynnwys, fel ag y mae ceisiadau ynglŷn ag adeiladau rhestredig neu dorri coed. Yn ychwanegol, nid oedd y ffurflen gyfredol yn adlewyrchu y gall ceisiadau fod yn gymhleth a bod angen amser sylweddol i benderfynu arnynt – er enghraifft ceisiadau datblygu cymysg mawr.

Roedd y ffurflen wedi ei hanelu yn llawer gormod tuag at agweddau ynglŷn â maint a chyflymder y penderfyniad yn hytrach nag ar ansawdd perfformiad, ond cydnabyddid y gallai hyn fod yn anodd ei fesur drwy ffurflen ystadebol syml. Egwyddor gyffredinol a gynigiwyd oedd fod penderfyniad 'gwell' yn cael ei wneud drwy negodi gydag ymgeiswyr i gael cymeradwyaeth yn hytrach na gwrthod ceisiadau o dan gyfyngiad y targed 8 wythnos. Roedd teimlad cyffredinol fod ceisiadau bellach yn llawer mwy cymhleth nag yr arferent fod ac na fydd targedau yn cael eu bodloni.

Mae gan awdurdodau ddylanwad cyfyngedig ar yr amser a gymerir ar yr ymgynghoriadau hyn gydag ymgymerwyr statudol ynghylch, er enghraifft, datganiadau amgylcheddol. Gall fod oedi mewnol o fewn awdurdodau, er enghraifft, gan swyddogion priffyrdd y cyngor, sy'n effeithio ar yr amser a gymer i benderfynu ar geisiadau. Mae niferoedd cynyddol o sylwadau gan drydydd parti ynglŷn â cheisiadau yn gwneud ceisiadau yn rhai anodd eu trin.

Roedd cytundeb cyffredinol y byddai casglu gwybodaeth am orfodi yn ddefnyddiol. Ond mae angen i gwynion gael eu diffinio yn briodol ynglŷn â p'run ydynt yn

gwynion am fater rheoli datblygiad neu am faterion mwy cyffredinol, neu a yw cynwion o'r fath yn ddigon pwysig i gyfiawnhau gweithredu gan awdurdodau.

Bu cytundeb cyffredinol hefyd y dylai'r categori 'mawr' gael ei addasu i roi ystyriaeth i geisiadau mawr iawn. Byddai hyn yn golygu codi'r trothwyon ynglŷn â 10 tŷ a'r gofod llawr i safle 1,000 m².

Mynegwyd barn gymysg ynglŷn â chasglu ffioedd a chostau gydag awdurdodau yn casglu data yn wahanol. Roedd yn aneglur hefyd beth fyddai'r data yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.

Yn nhermau monitro datblygiad hyd at ei gwblhau, roedd yn aneglur beth allai neu a ddylai gael ei gofnodi. Mae diffiniadau o achosion o gwblhau yn amrywio ond cytunwyd bod rheoli datblygu yn darparu'r wybodaeth mwyaf cywir a chyson ac na fyddai'n briodol dyblygu data o'r fath.

Roedd teimlad cryf y dylai data gael ei gasglu gan gadw defnydd yr awdurdodau eu hunain mewn cof. Roedd data a ystyrir yn fwy defnyddiol ar y lefel leol yn cynnwys cofnod o'r nifer o geisiadau am ddatblygu a ganiateir, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, nifer a hyd y trafodaethau cyn gwneud cais, faint o amser a gymerir i benderfynu ar amodau cynllunio, amledd cyfarfodydd o'r pwyllgor cynllunio a nifer y penderfyniadau yn erbyn nifer y penderfyniadau wedi eu dirprwyo, nifer a hyd y trafodaethau ar ôl ymgeisio, a nifer y ceisiadau annilys a gyflwynwyd. Nododd swyddogion awdurdodau lleol y dangosyddion hyn fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar gyflymder y broses o lunio penderfyniadau. Ond cydnabuwyd na allai'r elfennau hyn gael eu cynnwys yn realistig o fewn y ffurflen chwarterol oherwydd anawsterau o ran mesur yr elfennau hyn.

Yn gyffredinol, roedd awdurdodau o blaid ehangu'r ffurflen gyfredol i adlewyrchu mwy o'r llwyth gwaith llawn yn ymwneud â rheoli datblygiad. Gallai ystadegau am nifer cyfartalog yr achosion ar gyfer pob swyddog ddarparu rhyw arwydd o'r pwysau gwaith. Ond roedd yn hanfodol i unrhyw newidiadau mewn data fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i awdurdodau yn ogystal ag i LICC. Pe bai data yn cael ei ystyried o ddefnydd cyfyngedig, ni ddylid ei gasglu pa mor hawdd bynnag yr oedd i'w gasglu.

Ystyrir y dylai'r nodiadau canllaw cyfredol sy'n mynd gyda'r ffurflen gyfredol gael eu hadolygu a'u hegluro i sicrhau bod dealltwriaeth gyson o ofynion ar draws yr holl ACLI. Roedd consensws fod angen i'r categori "arall" gael ei ddiffinio'n llawn yn y nodiadau canllaw.

Roedd ACLI yn bryderus nad oedd yr holl ddata yr oeddent yn ei ddarparu yn y ffurflenni chwarterol yn cael ei gyhoeddi gan LICC a holwyd a oedd y data heb ei gyhoeddi yn cael ei ddefnyddio'n fewnol gan LICC. Gofynnwyd a ddylai'r holl ddata a ddarparwyd gael ei gyhoeddi.

4.2.2 Casglu data yn y dyfodol

Gwahoddwyd aelodau'r gweithly i roi eu barn ynglŷn â'u meysydd blaenoriaeth ar gyfer cynnwys data ac a ddylid dileu rhai dosbarthiadau o ddata sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd.

Mae ceisiadau am ymadawiadau a dderbyniwyd ac a ganiateir yn cael eu casglu ac mae'r data yn cael ei gyhoeddi gan LICC bob chwarter. Roedd anghysonderau clir rhwng ACLI wrth adrodd yr wybodaeth hon, yn deillio o'r gwahaniaethau mewn diffiniad o'r hyn sydd yn ymadawiad oddi wrth bolisi.

Mae data gorfodi yn cael ei gasglu ar hyn o bryd gan y rhan fwyaf o ACLI. Mae data o'r fath yn bwysig a dylid ei gynnwys ar y ffurflen chwarterol ond roedd rhybuddion y gallai ACLI gofnodi data o'r fath yn wahanol, felly gallai cymharu fod yn broblem. Mae trafodaethau cyn anfon cais ac ymholiadau yn elfennau pwysig o

lwyth gwaith ACLI, ond eto, gallai cymharu rhwng ACLI ynglŷn â niferoedd trafodaethau/ymholiadau o'r fath cyn llunio cais fod yn broblem hefyd.

Gellid ychwanegu ceisiadau yn ymwneud â mwynau at y categorïau mawr a bach yn hytrach nag fel categori ar wahân.

Ystyrid bod data am allbynnau yn fwy defnyddiol i LICC nag i awdurdodau. Nid oedd yn eglur sut y gallai'r wybodaeth hon gael ei chipio'n effeithiol drwy'r ffurflenni chwarterol. Credai AALI y gallai casglu data am ddeilliannau gael ei ddal yn well pan fo 1APP yn cael ei gyflwyno yng Nghymru. Os oedd data allbwn o'r fath i gael ei gynnwys yn y ffurflen chwarterol yna dylai'r mesur o ddeilliannau ganolbwyntio ar nifer y caniatadau a roddwyd yn hytrach nag ar nifer y tai a gwblhawyd ar y ddaear, ar y sail nad yw caniatadau weithiau yn cael eu cyflawni, a'u bod felly yn cynrychioli colled yn nhermau mewnbwn cynllunio gwirioneddol. Ymhellach, nid yw caniatadau yn cael eu cwblhau ar unwaith ond o fewn y cyfnod dirwyn i ben o dair blynedd, sy'n golygu na fyddai ffigurau chwarterol yn cyfateb i'r allbwn cynllunio am y cyfnod hwnnw.

Ystyrid bod casglu data am geisiadau cyn cymeradwyo yn ddiangen, gyda WOPS eisoes yn casglu'r data hwn. Ystyrid bod cofnodi data am geisiadau wedi eu gohirio yn ddiangen hefyd gyda chyflwyniadau anaml yn rhai nad oedd angen eu cofnodi yn chwarterol ond yn hytrach yn cael eu darparu i LICC pan ofynnid amdanynt.

Oherwydd nad yw unrhyw ddata ychwanegol i'w gofnodi ar y ffurflen chwarterol gyfredol yn cael ei gynnwys yn gyffredinol mewn contractau rheoli meddalwedd sy'n bodoli ar hyn o bryd, credai ACLI y dylai LICC ystyried rhoi cymhorthdal tuag at neu dalu am yr holl gostau ychwanegol hyn sy'n gysylltiedig â'r system. Nododd darparwyr meddalwedd y gallai gymryd o leiaf chwe mis i weithredu unrhyw allbynnau newydd ar ffurflenni chwarterol. Yn wir, byddai unrhyw feysydd ychwanegol yn 1AAP yn arwain at daliadau ychwanegol gan ddarparwyr meddalwedd.

Y farn gyffredinol o'r sesiwn hwn oedd fod ACLI o blaid ehangu'r ffurflen gyfredol i adlewyrchu mwy o'r llwyth gwaith llawn y mae ACLI yn ei wynebu ynglŷn â rheoli datblygiad.

4.3 Y Ffurflenni a Chanllawiau

Roedd awdurdodau yn gyffredinol yn teimlo'n gysurus gyda'r ffurflen bresennol. Ar ôl bod yn gweithredu am gyfnod cymharol hir o amser teimlid bod pobl yn derbyn eu gwerth a bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gofynion data. Ond fe wnaeth y rhai hynny oedd yn gyfrifol am lenwi'r ffurflen dynnu sylw at yr angen i wella'r nodiadau canllaw, ond ychydig o feysydd penodol y tynnwyd sylw atynt. Roedd pwyntiau arbennig i'w nodi yn cynnwys:

- Diffiniad a'r modd y trinir ceisiadau defnydd cymysg – yn arbennig sut y dylent gael eu codio, a ble ar y ffurflen y dylent ymddangos
- Awgrymwyd y gellid gwirio/croes-wirio i gynyddu hyder yn y data, ac
- Egluro diffiniad y codio ar gyfer penderfyniadau yn ymwneud ag ymadawiadau o'r polisi.

Pwysleisiodd pob awdurdod bwysigrwydd codio da gan staff cymorth yn y cam cofrestru a dilysu. Yn ei hanfod, ystyrir bod ansawdd y ffurflenni a'r data ynddynt yn cael ei weld fel swyddogaeth uniongyrchol o ansawdd y codio sy'n digwydd gan staff cymorth sy'n cofnodi gwybodaeth am geisiadau sy'n dod i mewn ar y system TG yn ystod cofrestru a dilysu.

I geisio sicrhau cysondeb, effeithiolrwydd a chyflawnder, mae awdurdodau yn defnyddio amrywiaeth o 'restrau gwirio' a ddylunir yn lleol. Gallai dull tebyg ychwanegu gwerth at y canllawiau.

Yn olaf, nododd Awdurdodau er bod y ffurflen gyfredol yn cael ei chynhyrchu drwy Dechnoleg Gwybodaeth, fod y ffurflen yn cael ei chwblhau â llaw oherwydd diffyg fersiwn electronig o ffurflen yr arolwg neu ddull o gyflwyno'r ffurflenni ar-lein. Cymharwyd hyn â'r gwaith arolwg a wneir gan yr Uned Data Llywodraeth Leol (UDLIL) sy'n defnyddio templad yn seiliedig ar Excel i roi adroddiad ynglŷn â Dangosyddion Perfformiad ar draws nifer o adrannau.

4.4 Y Broses o reoli perfformiad a chynhyrchu ffurflenni

Wrth gyfarfod ag amrywiaeth o staff o fewn awdurdodau lleol roedd yn bosibl cael ymdeimlad cynhwysfawr am sut y defnyddir data gan awdurdodau. Mae pob awdurdod astudiaethau achos yn gwneud defnydd o ddydd i ddydd a defnydd mwy achlysurol o ddata rheoli datblygiad. Yn ychwanegol, mae awdurdodau yn casglu nifer o eitemau data eraill. Mae'r rhain yn amrywio o ddangosyddion perfformiad gwasanaeth ar draws yr awdurdod cyfan hyd at adroddiadau am lwythi achos swyddogion neu dimau unigol. Roedd dau reswm yn tueddu i fod am gasglu data ychwanegol – naill ai ar gyfer asesu perfformiad neu ar gyfer monitro a rheoli llwyth gwaith.

Tueddai data yr oedd ar awdurdodau ei angen ac yr oeddent yn ei ddefnyddio i asesu eu perfformiad i fod bron yn union yr un fath â'r data y gofynnir amdano gan LICC a theimlai awdurdodau fod cyfatebiaeth dda yn gyffredinol rhwng yr hyn mae LICC yn gofyn amdano a'r hyn sy'n ddefnyddiol i'r awdurdod. Ymhellach, ystyrid bod Dangosyddion Perfformiad (DP) fel y rhai hynny a ddefnyddir i lunio Dangosyddion Perfformiad cenedlaethol Cymru yn declyn hanfodol i'r awdurdod asesu perfformiad mewn termau absoliwt ac ar gyfer meincnodi gydag awdurdodau cymdogol neu gydag awdurdodau sy'n arddangos nodweddion tebyg. Nododd nifer o awdurdodau y byddai casglu DP o'r fath yn parhau hyd yn oed pe bai Llywodraeth y Cynulliad yn peidio â gofyn am y data rheoli datblygiad y gofynnir amdano ar hyn o bryd.

Roedd data ar gyfer monitro a rheoli llwyth gwaith yn ymdrin â nifer o feysydd tebyg i'r rhai hynny a gafodd eu hasesu gan yr arolwg hwn – ac roeddent yn cynnwys meysydd fel cwynion gorfodaeth, trafodaethau cyn ymgeisio, llwyth gwaith swyddogion achos a lefelau dilysu. Ond roedd yn ymddangos fod amrywiaeth cymharol eang yn nhermau'r data a gasglwyd, y diffiniadau a ddefnyddiwyd ar gyfer casglu a defnydd/amledd adrodd ynglŷn â data o'r fath.

Yn nhermau cynhyrchu ffurflenni, ym mhob awdurdod astudiaeth achos roedd y broses i raddau helaeth yn un awtomatig ac yn anhepgor i systemau TG yr awdurdod. Ymhellach, ym mhob awdurdod roedd un aelod staff a oedd yn cymryd cyfrifoldeb am gynhyrchu a chyflwyno'r ffurflenni, yn ddarostyngedig i broses gymeradwyo a/neu wirio.

Y prif ddull o gynhyrchu ffurflen oedd drwy ymholiad wedi ei lunio ymlaen llaw ar ddatbas yn gysylltiedig â macro adroddiad a oedd yn casglu ac yn cyfrif y ffigurau angenrheidiol (yn seiliedig ar ddyddiau dechrau a diwedd a ddiffiniwyd gan y defnyddiwr) ac yn eu cyflwyno yn yr un modd â dyluniad y ffurflen bresennol. Roedd hyn wedyn naill ai'n cael ei anfon at LICC, neu ei drawsodi â llaw i'r ffurflen gyfredol ac yna ei anfon at LICC.

Yn achos nifer o systemau TG, roedd yn ymddangos bod y macros ymholi/adrodd yn seiliedig ar ffurflenni Lloegr. Yn wir, gallai rhai awdurdodau hefyd gynhyrchu ffurflenni o'r fath ar gyfer eu data eu hunain.

4.5 Gwybodaeth a Gofnodir ar Hyn o Bryd gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru

Arweiniodd y mater o data rheoli datblygiad, a'r angen i gasglu data digon cadarn i alluogi monitro a meincnodi maint a pherfformiad y gwaith, at i Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ddyfeisio ffurflen ystadegol ar gyfer ei haelodau. Mae'r ffurflen hon wedi ei chyflwyno ac yn esblygu ers peth amser yn awr, ac mae ganddi gyfradd ymateb o 100%.

Cesglir data o dan bedwar o brif ddosbarthiadau: manylion cyswllt (sydd hefyd yn cynnwys data llinell waelod fel poblogaeth ac arwynebedd), rheoli datblygiad (15 o ddangosyddion), gorfodi (6 o ddangosyddion), ac ansawdd gwasanaeth y cwsmer (11 o ddangosyddion). Mae cynnwys ystod eang o ddangosyddion ansawdd, maint a chyflymder yn adlewyrchu'r dull cytbwys a gymerir gan LICC o beidio â ffafrio cyflymder y gwaith o lunio penderfyniadau dros ansawdd y penderfyniadau a wneir.

Cyflwynir y data ar ffurf copïau o ffurflenni unigol gan awdurdodau a matrices wedi ei goladu o ddata, wedi ei drefnu yn nhrefn yr wyddor yn ôl enw'r awdurdod. Cyflwynir data ochr yn ochr er mwyn gallu cymharu, ond heb fabwysiadu dull 'tabl cynghrair'.

5 Gwerthuso Dewisiadau ac Argymhellion

5.1 Rhagarweiniad

Mae'r bennod hon yn ystyried y newidiadau a awgrymir i'r ffurflen rheoli datblygiad yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd drwy gydol yr adolygiad. Mae'r awgrymiadau hyn wedi eu hasesu yng nghyd-destun set gyffredinol o egwyddorion ac yna yn fanwl.

5.2 Egwyddorion ar gyfer Newid

Mae'r argymhellion a wnaed gan yr adolygiad hwn wedi tynnu ar yr egwyddorion canlynol ar gyfer newid.

- **Rhagdybiaeth yn erbyn newid** – yr egwyddor fu na ddylid ychwanegu at y baich o gasglu data oni bai fod gwerth yr ystadegau a gynhyrchir yn gadarnhaol, ac yn bodloni'r egwyddorion eraill a gyflwynir isod.
- **Dylai data fod yn angenrheidiol** – hynny yw y dylai data gael ei gasglu i bwrpas penodol a dylai fod o werth i LICC ac i awdurdodau lleol. Yn gyffredinol ni ddylai data fod yn 'dda i'w wybod' a dim arall. Ni ddylai'r nod fod i gipio a monitro'r cyfan am lwyth gwaith ceisiadau'r gwasanaeth cynllunio er ei fwyn ei hun: dylai estyniadau i'r gwaith casglu fod â phwrpas penodol. Dylai'r set data gyd-fynd â'r gwaith sylweddol a wneir yn barod gan awdurdodau i fonitro a rheoli perfformiad. Dylai hefyd roi ystyriaeth i'r wybodaeth a gesglir ar hyn o bryd gan POSW.
- **Mae goblygiadau o ran adnoddau yn bwysig.** Mae hyn yn berthnasol i awdurdodau ac i LICC. Dylai gofynion o ran casglu data roi ystyriaeth i faich cyffredinol y gwaith o gasglu data ychwanegol, gan gynnwys y gweithgaredd presennol, nid dim ond unrhyw niwed ymylol.
- **Sicrhau eglurder diffiniadol.** Mae angen i unrhyw ddata newydd fod yn gallu cael ei ddiffinio'n ddiamwys fel bod y gyfres newydd ar sail cyson a chywir.
- **Dylai data gael ei gynnwys yn y DCQS dim ond lle mai dyma'r ffordd fwyaf priodol i ddata o'r fath gael ei gasglu.** Roedd hyn yn ymwneud â'r dull o ddychwelyd data (fel a yw'n well i'r data gael ei fonitro drwy'r ffurflen rheoli datblygiad, neu drwy arolwg ar wahân, neu drwy AMR, ac amledd dychwelyd y data (h.y. ai yn chwarterol yw'r cyfnod mwyaf priodol ar gyfer y data dan sylw).
- **Ni ddylai unrhyw newidiadau i'r dull o gasglu data wneud difrod i'r gyfres amser.**
- Yn olaf, **dylai newidiadau gael eu hystyried yng ngoleuni polisi arall.** I gyd-fynd â blaenoriaethau cyfredol a rhai sy'n ymddangos o ran polisi, dylai casglu data yrru polisi newydd LICC yn ei flaen a galluogi i bolisi presennol gael ei fonitro yn effeithiol. Ymhellach dylent gynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt roi mewnbwn i setliad llywodraeth leol.

5.3 Matrics Asesiad

Cyflwynir barn LICC ynglŷn â materion cynllunio penodol a allai fod yn destun ystadegau yn y dyfodol yn Adran 3.7. Ceir barn awdurdodau lleol ynglŷn â chasglu data yn y dyfodol yn Adrannau 4.1 a 4.2

Argymhelliad	Sylw
Newidiadau Cyffredinol	
Cyflwyno ffurflenni yn chwarterol	Cyflwynir y ffurflenni yn chwarterol ar hyn o bryd, felly nid oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau. Nid oes unrhyw ddymuniad i symud at amledd is yn gyffredinol, a fyddai'n golygu colli gwerth yr ystadegau yn sylweddol. Ond mae'n bosib y bydd rhywfaint o ddata newydd yn cael ei gasglu yn llai aml. Dim newid
Cyfuno systemau swyddfa gefn yn y tymor hwy i alluogi LICC i echdynnu data yn uniongyrchol	Gallai hyn fod yn amcan tymor hir a fyddai'n cyflymu'r gwaith o gasglu data a gwneud y dadansoddi yn fwy hyblyg. Ond byddai angen adnoddau sylweddol (TG a hyfforddiant personol) gan LICC ac awdurdodau. Nid yw'n flaenoriaeth uchel ar hyn o bryd. Argymhellir dull electronig symlach o gasglu data yn ddiweddarach yn yr adroddiad. Dim newid
Data prosesau	
Ceisiadau mwy/ mwy cymhleth	
1. Ailddiffinio'r dosbarth 'mawr' gyda throthwy newydd (uwch)	Byddai'r newid hwn yn amharu ar y gyfres amser ac yn golygu na fyddai'n cyfateb â'r hyn fyddai'n digwydd yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Byddai'n cuddio rhywfaint o wybodaeth am berfformiad awdurdodau, oherwydd byddai ceisiadau a fyddai'n dod tu allan i'r diffiniad uwch yn dod i'r categorïau ceisiadau eraill i bwrpas perfformiad ac yn effeithio arnynt. Dim newid
2. Rhannu'r dosbarth 'mawr', gan arwahanu'r ceisiadau sy'n llawer mwy o faint mewn dosbarth o fath 'mawr mawr'	Byddai'n creu toriad arall yn y gyfres amser ac yn ymwneud â dim ond nifer bach iawn o geisiadau. Dim newid
3. Nifer y ceisiadau "prosiect isadeiledd mawr" (MIPs), e.e. isadeiledd o bwysigrwydd rhanbarthol a/neu genedlaethol	Ni fyddai prosiectau seilwaith sy'n bwysig yn genedlaethol yn dod at awdurdodau lleol i benderfynu yn eu cylch, er y byddai ganddynt rôl wrth ymgynghori yn eu cylch. Mae deddfwriaeth o flaen y Senedd ar hyn o bryd i gyflwyno argymhellion y Llywodraeth ynglŷn â phrosiectau sy'n bwysig yn genedlaethol. Byddent yn cael eu trin gan gorff cenedlaethol a fyddai â chofnodion o'i waith. Hyd nes byddai'r ddeddfwriaeth hon ar y llyfr statud, byddai penderfyniad yn gyn-amserol. Dim newid
4. Gofynnir am wybodaeth ar wahân ar gyfer ceisiadau gydag ES, gan gymryd y raddfa amser darged o 16 wythnos i ystyriaeth	Nid yw'r gofynion gweithdrefnol gwahanol a'r llwyth gwaith tebygol ar gyfer awdurdodau ceisiadau o'r fath yn cael ei gynrychioli yn briodol yn y set gyfredol o wybodaeth am berfformiad sy'n cael ei gasglu. Byddai hyn yn llenwi bwlch ar hyn o bryd yn y wybodaeth am berfformiad i awdurdodau LICC. Nid oes unrhyw faterion diffiniadol tybiedig. Ychwanegu categori amser 13-16 wythnos; yn cael ei gasglu'n chwarterol

Argymhelliad	Sylw
5. Nifer y ceisiadau a bennir o fewn graddfa amser a gytunwyd o flaen llaw	Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog awdurdodau i fynd i mewn i gytundebau cyflwyno gydag ymgeiswyr ynglŷn â chyflenwi penderfyniadau fel llwybr at reoli perfformiad ceisiadau. Hyd yn oed pe baent, ni fyddai'r data yn adlewyrchu amserlenni cyson, oherwydd byddai pob achos yn ôl ei ddiffiniad, yn wahanol. Dim newid
6. Nifer a math yr 'asesiadau' a dderbyniwyd, h.y. megis perygl llifogydd, halogiad tir, effaith cludiant, bioamrywiaeth, dyluniad, mynediad, rhywogaethau gwarchodedig ac ati.	Nid yw amrywiaeth a nifer yr asesiadau angenrheidiol yn gyson ar gyfer y ceisiadau i gyd, ac ni fyddai ffurflen syml yn rhoi arwydd dibynadwy o'r goblygiadau o ran llwyth gwaith i awdurdodau, nac yn cynorthwyo LICC yn ei waith o lunio polisi oni bai fod hynny'n anghyffredin o gymhleth. Dim newid
7. Nifer y ceisiadau sydd angen i gytundeb cynllunio adran 106 gael ei gwblhau (cytundeb ac ymgymeriadau unochrog)	Gall goblygiadau cynllunio greu llwyth gwaith sylweddol i awdurdodau ond maent yn cyfrannu llawer o'r manteision sylweddol sy'n deillio o'r system gynllunio. Mae'n ofynnol i'w dangos yn y gofrestr cynllunio. Tra bod pob rhwymedigaeth yn wahanol, byddai data pellach yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at ddangos y baich ar awdurdodau a'r effaith y gall hyn ei gael ar eu perfformiadau a'u hanghenion staffio. Byddai awdurdodau a LICC yn elwa o'r wybodaeth hon. Ychwanegu adran newydd categori 106; cael ei gasglu bob chwarter
8. Nifer y ceisiadau sydd angen i gytundeb s106 gael ei gwblhau ac ymgymeriadau unochrog a bennir o fewn y raddfa amser darged	Gweler dadleuon ar gyfer 7 uchod. Er y byddai'n dyblu swm y data a gesglir, rydym yn argymhell ei gynnwys. Ychwanegu data ynglŷn â chyflawni terfynau amser ar gyfer yr holl categorïau o gais; cael eu casglu'n chwarterol.
Apeliadau	
9. Gwybodaeth apeliadau (fel a ddarparir ar hyn o bryd gan PINS) megis niferoedd apeliadau, math, canlyniad ac ati.	Cofnodir nifer yr apeliadau a'r perfformiad gan PINS ac yn y ffurflen POSW. Ni fyddai LICC nac awdurdodau yn cael budd o gasglu'r wybodaeth drwy'r DCQS, y byddai angen ei gysoni hefyd. Dim newid
Penderfynu ar Geisiadau	
10. Gwnaed cofnod ynghylch estyn y graddfeydd amser penderfynu er mwyn archwilio'r amser a gymerir i'r ceisiadau hynny sy'n cymryd mwy nag 8 neu 13 wythnos i'w pennu	Byddai'r gyfres newydd hon yn darparu gwybodaeth am berfformiad ynglŷn â'r set gyflawn o benderfyniadau rheoli datblygu, gan lenwi'r bwlch cyfredol sydd wedi ei greu pan fo achosion yn mynd dros y terfynau amser. Byddai gan LICC ac awdurdodau well darlun o'r perfformiad cyffredinol. Nid yw'n ymddangos bod y rhain yn faterion diffiniadol. Ychwaneger <8, <13 ac <16 wythnos yn newydd (gweler 4 uchod) ; wedi ei gasglu'n chwarterol

Argymhelliad	Sylw
11. Rhannu gwybodaeth 'a gafodd ei ddwyn ymlaen' yn fathau o geisiadau mawr/bach/arall	Byddai hyn yn cynorthwyo i ddeall cyfansoddiad y rhestr wrth gefn o achosion ym mhob awdurdod. Ond nododd yr arolygiad mai ychydig o bryder oedd ynglŷn â'r gwaith hwn oedd yn disgwyl sylw, a fyddai'n bwysicach mewn trefn rheoli perfformiad mwy llym, a byddai data o'r fath yn ychwanegu ychydig iawn o werth i awdurdodau ac i LICC. Dim newid
12. Rhannu gwybodaeth 'a gafodd ei ddwyn ymlaen' yn fathau unigol (anheddau, swyddfeydd, diwydiant cyffredinol, manwerthu, pob math arall)	Byddai hyn yn cynorthwyo i ddeall cyfansoddiad yr achosion oedd yn disgwyl sylw, ym mhob awdurdod. Ond gweler 11 uchod. Dim newid
13. Nifer y penderfyniadau a wnaed gan ddefnyddio grymoedd dirprwyedig	Mae polisi ynglŷn â defnyddio dirprwyo yn destun argymhellion diwygio, gyda'r awgrym y dylai cyrff adolygu aelodau lleol adolygu apeliadau yn erbyn ceisiadau a wrthodir gan swyddogion. Hyd nes fo bolisi yn cael ei setlo, byddai newid yn y modd y mae data yn cael eu casglu yn y maes hwn yn gyn-amserol. Dim newid
14. Nifer y penderfyniadau a wnaed gan ddefnyddio grymoedd dirprwyedig, wedi'u rhannu yn fathau unigol (anheddau, swyddfeydd, diwydiant cyffredinol, manwerthu, pob math arall)	Mae'r un dadleuon yn berthnasol ag ar gyfer 13 uchod. Dim newid
15. Nifer y penderfyniadau gan y pwyllgor cynllunio yn groes i argymelliadau swyddog	Er bod penderfyniadau nad ydynt yn dilyn argymhellion swyddogion yn ddigwyddiad prin, a'u bod yn gwarchod natur ddemocrataidd y broses o lunio penderfyniadau, gallai achosion sy'n mynd yn groes i argymhellion swyddogion dro ar ôl tro fod yn fesur o ansawdd sy'n werthfawr i awdurdodau eu hunain ac i LICC. O ystyried anamledd y digwyddiadau, byddai casgliad blynyddol yn ddigon aml. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw faterion diffiniadol. Ychwaneger penderfyniadau'r pwyllgor yn erbyn categori argymhellion y swyddogion; casgliad blynyddol.
16. Rhannu ceisiadau 'wedi'u tynnu'n ôl' yn fathau unigol (anheddau, swyddfeydd, diwydiant cyffredinol, manwerthu, pob math arall)	Mae materion diffiniadol ynglŷn â beth sy'n ffurfio cais sy'n cael ei dynnu'n ôl ac ychydig o dystiolaeth sydd o berthynas achlysurol rhwng ymddygiad awdurdod a sgiliau ymgeiswyr wrth wneud ceisiadau. Felly byddai gwerth yr wybodaeth i LICC ac awdurdodau yn fach. Dim newid
17. Achosion ar gyfer pob swyddog achos	Argymhellwyd y mesur hwn o gynhyrchiant ac ansawdd y gwaith o lunio penderfyniadau yn y seminarau rhanddeiliaid. Mae LICC yn cefnogi hyn. Bydd angen canllawiau ynglŷn â'r diffiniad i'w defnyddio. Ychwaneger achosion ar gyfer pob swyddog achos; casgliad blynyddol

Argymhelliad	Sylw
Ffioedd Ceisiadau Cynllunio	
18. Cyfanswm y ffioedd ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd	Mae'r graddau y mae ffioedd yn fecanwaith digonol ar gyfer cyllido'r gwasanaeth cynllunio yn gwestiwn y rhoddir blaenoriaeth iddo gan LICC ac awdurdodau lleol. Y mae cwestiwn ynghylch ai'r DCQS yw'r dull priodol o gasglu, neu a fyddai ffurflen ariannol – neu ddiwygiad i un bresennol – yn ddewis gwell. LICC i ystyried y dull casglu gorau ar gyfer incwm ffioedd
19. Cyfanswm ffioedd ymgeisio am gynllunio ar gyfer pob categori (anheddau, swyddfeydd, diwydiant cyffredinol, adwerthu, pob un arall)	Er bod incwm ffioedd yn flaenoriaeth i gael gwell gwybodaeth, byddai casglu data am bob dosbarth o gais yn mynd yn rhy fanwl ac yn dechrau codi materion diffiniadol (yn arbennig ynghylch datblygiadau defnydd cymysg). Dim newid
Dosbarthiadau Ymgeisio	
20. Ad-drefnu dosbarthiadau'r ffurflen er mwyn iddynt adlewyrchu dosbarthiadau ffi ceisiadau cynllunio	Byddai'r argymhelliad yn amharu ar y gyfres amser ac yn colli manylion am natur y datblygiad. Dim newid
21. Aildrefnu categorïau'r ffurflen i adlewyrchu'r Gorchmynion Dosbarthiadau Defnydd	Byddai ar yr argymhelliad angen diwygiad sylweddol i systemau awdurdodau gydag ychydig o werth ychwanegol i LICC nac i'r awdurdodau. Dim newid
22. Ychwanegu categori 'defnydd cymysg' i'r ffurflen o fewn mathau o geisiadau mawr/bach/arall	Byddai labelu grŵp o geisiadau fel defnydd cymysg yn amharu ar y gyfres amser ac ni fyddai'n cynorthwyo i ddeall y llwyth gwaith na'r materion ynglŷn â pherfformiad a fyddai'n cael eu creu ganddynt. Gallai greu materion diffiniadol. Dim newid
Ceisiadau Arbenigol/Mathau o Geisiadau	
23. Nifer y ceisiadau cymeradwyaeth o flaen llaw fesul math (h.y. dymchwel, telathrebu ac ati)	Er y byddai casglu gwybodaeth wedi ei gymeradwyo ymlaen llaw yn ychwanegu at dealltwriaeth LICC ac awdurdodau o'r llwyth gwaith, mae materion diffiniadol yn parhau a allai danseilio cywirdeb ac felly werth y data. Gweler hefyd 33. Dim newid
24. Nifer y ceisiadau cymeradwyo amod(au)	Oherwydd nad yw cyfaint y ceisiadau i'w cymeradwyo yn ganllaw cywir i'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'u trin, ni fyddai casglu'r data hwn yn ychwanegu at ddealltwriaeth LICC nac awdurdodau o'u perfformiad na'r dull o'u cyllido. Dim newid
25. Nifer y ceisiadau amrywio amod(au)	Mae'r un dadleuon yn berthnasol ag ar gyfer 24 uchod. Dim newid

Argymhelliad	Sylw
26. Arwahanu ceisiadau amaethyddol er mwyn ffurfio categori yn ychwanegol i rai cyfredol (h.y. (anheddau, swyddfeydd, diwydiant cyffredinol, manwerthu, pob un arall)	Mae defnydd amaethyddol neu ddefnydd arall o gartrefi yng nghefn gwlad yn ystyriaeth allweddol wrth gynnal y tirlun gwledig, sy'n ddiddordebau i LICC ac awdurdodau. Byddai angen i gasglu data ynglŷn â cheisiadau amaethyddol er hynny gael ei ymrannu rhwng gwahanol ddefnyddiau i nodi hyn ar wahân dyweder i geisiadau arallgyfeirio. Mae rhywfaint o ddatblygiad y tu allan i'r system gynllunio yn rhinwedd yr eithriad amaethyddol. Byddai materion diffiniadol canlyniadol. Byddai hyn yn creu baich yr ydym ar gyfartaledd yn penderfynu yn ei erbyn. Dim newid
27. Data crynodeb ar gyfer mathau o geisiadau braslun/ llawn/ materion neilltuedig	Gallai deall manylion am lwyth gwaith awdurdodau mewn perthynas â gwahanol fathau o gais gynorthwyo LICC ac awdurdodau. Ond nid yw hyn yn ganllaw sicr i faint gwirioneddol y dasg mewn llaw ar unrhyw un pryd. Dim newid
28. Nifer y ceisiadau a bennir gan Ddeddfau eraill (h.y. Deddfau Trydan, Nwy a Phiblinellau)	Byddai gwybodaeth fanylch ynglŷn a darparu seilwaith yn cynorthwyo LICC i ddeall cyfraniad datblygiad ar raddfa fach i'r darlun Cymreig mwy. Ond ni fyddai niferoedd ceisiadau ar eu pen eu hunain o anghenraid yn dangos y capasiti ychwanegol y byddai'r datblygiad yn ei ddarparu. A byddai mesur capasiti yn amrywio gyda natur y datblygiad. Dim newid
29. Rhannu ceisiadau mwynau yn weithfeydd ynni/heb fod yn ynni a fesul gweithrediadau wyneb/cloddio	Oherwydd daeareg, mae gwahanol faich o ran ceisiadau mwynau ymysg awdurdodau. Byddai data pellach ynglŷn â llwythi gwaith cymharol yn cynorthwyo LICC ac awdurdodau i ddeall y cyfyngiad y mae hyn yn ei roi yn well. Ychwanegu mwynau yn ôl ynni/heb fod yn ynni a fesul gweithrediadau wyneb/cloddio; wedi eu casglu yn flynyddol
30. Gwybodaeth ynghylch ceisiadau ynni adnewyddadwy, wedi'u rhannu fesul ffynhonnell ynni	Ni fyddai'r argymhelliad hwn yn cipio data ynglŷn â micro-gynhyrchu lle roedd yn cael ei ganiatáu neu lle byddai'n ychwanegol at ddefnydd arall. Ond byddai'n helpu LICC ac awdurdodau i fonitro gweithredu polisi newid hinsawdd, sy'n flaenoriaeth uchel gan y Llywodraeth. Byddai'n briodol nodi rhai ffynonellau ynni (ond nid pob un). Nid yw'n ymddangos fod unrhyw faterion diffiniadol. Ychwanegu ceisiadau ynni adnewyddadwy, wedi eu rhannu yn ôl ffynhonnell ynni (biomas, dŵr/llanw/tonnau, gwynt ar y tir, gwynt alltraeth (arall); cael eu casglu'n flynyddol) gweler hefyd 63.
31. Rhannu ceisiadau gwaredu gwastraff yn geisiadau mewnol (llosgi) ac allanol (tirlenwi)	Mae nifer ceisiadau o'r fath yn fach ac mae gweithredu cynlluniau gwastraff rhanbarthol yn cael ei fonitro drwy AMR. Dim newid
32. Nifer y ceisiadau a gyflwynwyd gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg	Yn arbennig oherwydd y defnydd o asiantau (hyd yn oed ar gyfer ceisiadau yn ymwneud â pobl yn eu cartrefi) nid oes unrhyw gydberthyniad uniongyrchol rhwng ceisiadau yn y Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Dim newid

Argymhelliad	Sylw
33. Nifer yr hysbysiadau ar gyfer mastiau telathrebu o dan 15 medr mewn uchder	Mae hysbysu datblygiad o'r fath yn arfer da yn unig ac ni fyddai felly yn darparu set data cynhwysfawr. Gweler hefyd 23. Dim newid
34. Cyfuno categorïau (anheddau, swyddfeydd, diwydiant cyffredinol, manwerthu, pob un arall) yn geisiadau mawr/bach/.arall yn unig	Byddai'r argymhelliad yn amharu ar y gyfres amser. A byddai'n achosi colli gwybodaeth ynglŷn â swm y gweithgaredd mewn meysydd polisi allweddol. Byddai LICC ac awdurdodau yn colli yma. Dim newid
35. Nifer y ceisiadau i dorri coed a warchodir gan Orchmynon Cadwraeth Coed	Er yn sylweddol o ran termau tirlun a mwynderau, a hefyd yn fater lleol hynod sensitif yn aml, nid yw ceisiadau i dorri coed yn ddarostyngedig i TPOs yn cynrychioli swm sylweddol o lwyth gwaith awdurdod. Ymhellach, gall torri coed a thocio gael goblygiadau sylweddol o ran mwynderau. Gellid cyfiawnhau'r newid hwn dim ond pe bai pob agwedd o'r gwasanaeth cynllunio yn cael ei fesur. Dim newid
36. Ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig, a'r nifer o geisiadau a gyflwynwyd ar y cyd â Chaniatâd Adeilad Rhestredig	Nid yw'r adolygiad wedi datgelu pryder ymysg awdurdodau nac o fewn LICC ynglŷn â chanlyniadau ceisiadau yn ymwneud â threftadaeth i lwyth gwaith. Dim newid
37. Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiad sy'n dod o fewn gorliffdir	Mae LICC ac awdurdodau yn bryderus am yr anawsterau a gaiff awdurdodau wrth gysoni'r modd y cyflenwir datblygiad newydd digonol ac osgoi canlyniadau llifogydd. Byddai dosbarthiad TAN15 yn dangos perfformiad awdurdodau i gyflenwi heb ganiatau datblygiad mewn ardaloedd mewn perygl uchel o lifogydd, sy'n gyson â'u topograffi. Ychwaneger ceisiadau yn ôl Cylchfaedd A, B, C, C1 a C2 (o TAN 15); yn cael eu casglu'n chwarterol; pâr o golofnau fertigol ar draws yr holl fathau o ddatblygiad.
38. Nifer y ceisiadau a waredwyd yn llwyr o'r diwedd	Nid oes unrhyw dystiolaeth fod llwyth gwaith mawr neu heriol i awdurdodau o'r swyddogaeth hon. Dim newid
39. Nifer y ceisiadau annilys (fel a farnwyd i gychwyn, oherwydd gwybodaeth annigonol)	Mae'r llwyth gwaith a grëwyd gan geisiadau annilys yn amrywio rhwng awdurdodau yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys argaeledd a nifer sy'n manteisio ar drafodaethau cyn cyflwyno cais, a defnydd o asiantau a chynghor arall cyn gwneud cais. Byddai'r materion diffiniadol hyn yn tanseilio gwerth unrhyw ddata a gasglwyd. Dim newid
40. Nifer y ceisiadau a ailgyflwynwyd ("cais am ddim")	Gallai trin data arall ynglŷn â ffioedd a cheisiadau gael ei ddefnyddio fel procsi i gael gwybodaeth debyg. Dim newid
41. Nifer y Tystysgrifau Datblygu Cyfreithlon	Nid yw'r adolygiad wedi datgelu pryder ymysg awdurdodau nac o fewn LICC ynglŷn â chanlyniadau LDC ar y llwyth gwaith. Mae'r llwyth gwaith yn deillio o bob LDC yn wahanol, a fyddai'n tanseilio gwerth unrhyw ddata a gasglwyd. Dim newid

Argymhelliad	Sylw
42. Nifer yr hysbysiadau gwaredu gwrychoedd	Nid oes unrhyw dystiolaeth fod llwyth gwaith mawr neu anodd i awdurdodau o'r swyddogaeth hon. Gellid cyfiawnhau'r newid hwn dim ond pe bai pob agwedd o'r gwasanaeth cynllunio yn cael ei fesur. Dim newid
43. Nifer y ceisiadau ar-lein a dderbyniwyd	O ystyried y gall pob awdurdod dderbyn ceisiadau ar-lein, ni fyddai'r wybodaeth hon yn cofnodi perfformiad awdurdod oherwydd mai ymgeiswyr sy'n dewis y dull o gyflwyno. Dim newid
44. Nifer yr erlyniadau yng nghyswllt adeilad rhestredig	Nid yw materion yn ymwneud â threftadaeth yn bryderon proffeiil uchel i awdurdodau nac i LICC ac, er ein bod yn argymhell bod gwybodaeth yn cael ei chasglu am agweddau eraill o orfodi, nid oes angen ymdrin ag agweddau llai pwysig y swyddogaeth. Dim newid
45. Nifer yr anghydfodau ynghylch gwrych uchel (h.y. Leylandii)	Nid oes unrhyw dystiolaeth fod llwyth gwaith mawr neu anodd i awdurdodau o'r swyddogaeth hon. Gellid cyfiawnhau'r newid hwn dim ond pe bai pob agwedd o'r gwasanaeth cynllunio yn cael ei fesur. Dim newid
46. Nifer y rhybuddion tir diffaith ynghylch tir ac eiddo a esgeuluswyd (s215)	Nid yw'r adolygiad wedi datgelu pryder ymysg awdurdodau nac o fewn LICC ynglŷn â chanlyniadau hysbysiadau o'r fath ar y llwyth gwaith. Mae'r llwyth gwaith yn deillio o bob un hysbysiad yn wahanol, a fyddai'n tanseilio gwerth unrhyw ddata a gesglir. Dim newid
47. Nifer y caniatadau ar gyfer safleoedd carafanau sipswn a theithwyr, ac ar gyfer datblygu ar safleoedd sy'n bodoli eisoes	Mae triniaeth gyfartal i deithwyr yn y system gynllunio yn dal yn flaenoriaeth wleidyddol a gweinyddol uchel. Byddai awdurdodau a LICC yn gallu monitro honiadau o anghyfarfartedd yn fwy effeithiol gyda set data gynhwysfawr. Nid oes unrhyw faterion diffiniadol y gellir eu rhagweld. Ychwaneger caniatadau ar gyfer safleoedd carafanau i deithwyr ac ar gyfer datblygiad ar safleoedd presennol; a fyddai yn cael ei gasglu'n chwarterol.
Gweithgaredd Gorfodi	
48. Nifer y cwynion gorfodi a dderbyniwyd	Yn dilyn adolygiad mawr gan LICC o'r swyddogaeth gorfodi, a phryder awdurdodau fod hyn yn swyddogaeth nad yw'n cael yr adnoddau priodol, mae'n ymddangos fod set data ddefnyddiol angen ei sefydlu. Mae angen canllawiau ynglŷn ag ystyr 'cwyn'. Ychwaneger cwynion am orfodi a dderbyniwyd; yn cael eu casglu'n chwarterol
49. Nifer y cwynion gorfodi lle rhoddwyd gweithrediadau ffurfiol pellach ar waith	Gweler y rhesymeg uchod. Ychwaneger cwynion gorfodi lle cymerwyd camau ffurfiol; yn cael eu casglu'n chwarterol.
50. Nifer y ceisiadau lle defnyddiodd yr ACLI rymoedd adran 70 er mwyn gwrthod pennu ceisiadau	Gweler y rhesymeg uchod. Ychwaneger ceisiadau lle bo LPA wedi gwneud defnydd o bwerau Adran 70A i wrthod penderfynu ar geisiadau; yn cael eu casglu'n chwarterol
51. Nifer y ceisiadau am ganiatâd penodol i arddangos hysbysebion	Gweler y rhesymeg uchod. Ychwaneger ceisiadau am ganiatâd penodol i arddangos hysbysebion; yn cael eu casglu'n chwarterol

Argymhelliad	Sylw
52. Nifer y ceisiadau am ôl-ganiatâd (gan gynnwys p'un ai y cymeradwywyd neu y gwrthodwyd y cais)	Gweler y rhesymeg uchod. Yn ychwanegol mae awdurdodau lleol wedi dadlau bod y gallu i wneud cais adolygol yn dod ag anfri i'r system a byddai ystadegau ynglŷn ag i ba raddau maent yn ymarfer eu pwerau gwrthod yn cynorthwyo i egluro polisi. Ychwaneger ceisiadau am ganiatâd adolygol; yn cael eu casglu'n chwarterol
53. Nifer y gweithrediadau gorfodi a roddwyd ar waith yn erbyn ceisiadau lle gwrthodwyd ôl-ganiatâd	Gweler y rhesymeg uchod. Ychwaneger camau gorfodi a gymerwyd yn erbyn ceisiadau y gwrthodwyd caniatâd adolygol iddynt; yn cael eu casglu yn chwarterol
Penderfyniadau am wyriadau a cheisiadau a gyfeiriwyd/a alwyd i mewn	
54. Nifer y penderfyniadau a gyfeiriwyd	Nid oes gan awdurdodau ddiffiniad cyson o ymadawiadau ac felly byddai set data yn anghyson ac ni fyddai o werth mawr i LICC nac i awdurdodau. Ni chredir bod ymadawiadau bellach yn fesur o gynllun sydd wedi dyddio. Dileu hyn o'r ffurflen bresennol
55. Nifer y penderfyniadau gwyrriad fesul categori (anheddau, swyddfeydd, diwydiant cyffredinol, manwerthu, pob un arall)	Gweler y rhesymeg uchod. Dileu o'r ffurflen bresennol
56. Nifer y ceisiadau a alwyd i mewn (gan yr Ysgrifennydd Gwladol)	Mae achosion o alw i mewn yn gymharol brin ac mae'r awdurdod dan sylw a'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol ohonynt. Ni fyddai set data yn ychwanegu unrhyw beth. Dim newid
Data am ganlyniadau	
57. Nifer yr anheddau a ganiateid	Mae'r adolygiad wedi dod o hyd i farn wahanol ynglŷn â chasglu gwybodaeth am allbwn. Ar un llaw, mae'n cael ei gasglu drwy nifer o fecanweithiau eraill (o fewn cynllunio a'r tu allan iddo); ar y llaw arall, ac yn arbennig ym marn LICC, mae'n ffynhonnell o ddata gweithredu gwerthfawr. Mae data ynglŷn â thuedd awdurdodau i ganiatáu a gwrthod cartrefi newydd yn allweddol i'r modd y cyflenwir targedau tai heriol. Ac mae'n hanfodol deall lle mae'r ceisiadau hynny yn y broses cyflenwi. Ychwaneger nifer y cartrefi sy'n cael eu caniatáu/eu gwrthod yn ôl amlinelliad/llawn/wedi eu cadw; yn cael eu casglu'n flynyddol
58. Datblygiadau tai a ganiateid fesul math, deiliadaeth arfaethedig, gan gynnwys eu defnyddio fel ail gartref	Nid yw bob amser yn eglur o'r ceisiadau beth yw math a daliadaeth y cartrefi. Ychydig o werth a fyddai i unrhyw set data anghyflawn ac anghyson. Dim newid
59. 'Swm' (allbwn datblygu potensial)) y caniatadau a roddwyd, h.y. gofod llawr fesul math o ddefnydd	Yn gyfochrog â chyflenwi tai, mae gan fonitro defnyddiau eraill werth, yn arbennig i LICC. Byddai angen canllawiau ynglŷn â diffiniadau cyson. Ychwaneger arwynebedd llawr a ganiatawyd/a wrthodwyd yn ôl math o ddefnydd (cartrefi, swyddfeydd, diwydiant, adwerthu/dosbarthu, gwaredu gwastraff, arall); a gesglir yn flynyddol

Argymhelliad	Sylw
60. 'Swm' (allbwn datblygu potensial) y gwnaethpwyd cais amdanynt yn ogystal â 'swm' a ganiatawyd er mwyn cymryd addasiadau i ystyriaeth	Byddai gan ddata sy'n cael ei gasglu werth cyffredinol prin, o ystyried nifer a maint y diwygiadau. Dim newid
61. 'Swm' (allbwn datblygu potensial) a wrthodwyd, yn ogystal â'r 'swm' a ganiatawyd	Gweler 57 a 59 uchod, sy'n cynnwys y gofyniad hwn. Dim newid
62. 'Swm' (allbwn datblygu potensial) y caniatadau o fewn safleoedd/ardaloedd tir llwyd/tir glas	Mae'r gwahaniaeth rhwng datblygiad meysydd glas a llwyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth wleidyddol a gweinyddol. Ychwaneger arwynebedd safle caniatadau ar safleoedd meysydd llwyd a glas (gan ddefnyddio diffiniad PPW); yn cael eu casglu yn flynyddol
63. 'Swm' y cynhwysedd creu ynni a gyflawnwyd gan ffynonellau adnewyddadwy, fesul ffynhonnell	Monitro gweithredu polisi newid hinsawdd sy'n dal yn flaenoriaeth uchel i'r llywodraeth. Ni fyddai'r argymhelliad hwn yn cipio data ynglŷn â chynhyrchu micro lle bo yn cael ei ganiatáu na lle byddai'n ychwanegol at ddefnydd arall. Ni fyddai argymhellion cynharach ynglŷn â nifer y ceisiadau (gweler 30) yn arwydd o gyflenwi capasiti. Felly byddai'r argymhelliad hwn yn fuddiol i LICC ac i awdurdodau. Byddai'n briodol felly nodi'r un ffynonellau ynni ag a wnaed yn gynharach. Ychwaneger capasiti ynni adnewyddadwy wedi ei rannu yn ôl ffynhonnell ynni (biomas, dŵr/llanw/tonnau/ gwynt ar y tir, gwynt alltraeth, arall); yn cael ei gasglu'n flynyddol
64. 'Swm' y cynhwysedd prosesu gwastraff a gyflawnwyd	Mae bodloni targedau gwastraff yn flaenoriaeth polisi uchel i LICC ac i awdurdodau. Mae monitro'r cyfraniad parhaus o ran capasiti o werth mawr felly. Ond mae'n cael ei wneud ar hyn o bryd drwy fonitro'r tair strategaeth gwastraff rhanbarthol a'u casglu a'u cyhoeddi gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Byddai cyfres ddata newydd yn datblygu hyn. Dim newid
65. Swm y caeau chwarae a'r lle agored a gyflenwyd	Mae pryder ynglŷn â cholli caeau chwarae a mannau agored yn dal yn flaenoriaeth i Weinidogion. Mae angen i unrhyw fesur gofnodi'r newid net fel bod colled neu ennill yn cael eu nodi'n glir. Mae hyn yn codi materion diffiniadol. Er hyn rydym yn argymhell eu cynnwys. Ychwaneger newid net mewn caeau chwarae a mannau agored, wedi eu mesur mewn hectarau; a'u casglu'n flynyddol.
66. Arwahanu ceisiadau i newid dull o ddefnyddio, gan ofyn am newid clir mewn dull o ddefnyddio fesul math o ddefnydd	Byddai hon yn dasg gymhleth o ychydig iawn o werth ymylol i LICC nac i awdurdodau. Dim newid

Mewn perthynas â phob set data, fel y mae ar hyn o bryd, byddai gwybodaeth yn cael ei chasglu ar sail nifer y ceisiadau, yn dangos y nifer a ganiateir a'r rhai hynny sy'n cael eu gwrthod. Byddai gwybodaeth ychwanegol, er enghraifft ynglŷn â lefel risg llifogydd, natur y ceisiadau mwynol, a ffynonellau ynni, hefyd yn ffurfio rhan o'r ffurflen.

Byddai'r ffurflen DVCQS yn parhau i gael ei chwblhau ar gyfer y gofynion chwarterol ar ddiwedd pob chwarter fel ar hyn o bryd. Y gofynion blynyddol fyddai ffurflen atodol a lenwid ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth.

6 Casgliadau a Gweithredu

6.1 Newidiadau a awgrymir i'r Ffurflen a'r Canllawiau

Mae'r newidiadau a awgrymir i'r ffurflen yn becyn llawn o ddewisiadau a diwygiadau i'r modd y mae data yn cael ei gasglu. Ond gellid eu dehongli fel set o ymyraethau posibl i LICC eu hystyried. Cynhwysir ffurflen chwarterol ddiwygiedig o fewn atodiad A6.

Tynnodd yr arolwg sylw at anfodlonrwydd sylweddol gyda'r nodiadau canllaw, ond ni chynhyrchwyd nifer fawr o newidiadau penodol. Un broblem yw fod y ffurflen a'r canllawiau yn ddwy ddogfen ar wahân er, lle defnyddir y ffurflen i drawsosod yr hyn a gynhyrchir gan system TG yr awdurdod ar bapur, anaml y cyfeirir at y nodiadau canllaw.

Mae'r adolygiad yn canfod nad yw'r canllawiau yn sylfaenol ar fai. Ond byddem yn awgrymu bod unrhyw fersiwn newydd o'r ffurflen yn cynnwys canllawiau diwygiedig. Mae nodiadau canllaw diwygiedig a awgrymir yn rhan o'r ffurflen yn atodiad A6.

6.2 Cyflwyno'r gweithredu

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno rhestr o argymhellion ar gyfer newidiadau i'r data sy'n cael eu casglu ar ffurflen rheoli datblygiad chwarterol Cymru. Bydd angen i LICC ystyried pa rai o'r argymhellion y dymunant eu cyflwyno, ac yna cynnal ymgynghoriadaeth ffurfiol gyda ACLI ynglŷn â newidiadau i data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd. Dylai'r ymgynghoriadau hyn lunio amancyfrifon o'r costau i'r ACLI o wneud y newidiadau hyn. Ar gyfer gweithredu, bydd ACLI yn dibynnu i raddau helaeth ar ddarparwyr meddalwedd i wneud y newidiadau. Bydd yn hanfodol fod LICC yn cynnwys darparwyr meddalwedd mor fuan â phosib ynglŷn â gweithredu. Efallai y bydd gan ACLI gontractau gyda e-meddalwedd sy'n ymdrin â newidiadau i ddata chwarterol y system sy'n cael eu cofnodi yn eu systemau databas ar hyn o bryd – naill ai am ddim neu am bris cymhedrol. Mae'n bosib na fydd y cytundebau contract yn ymestyn i roi allbynnau newydd yn awtomatig ar ffurflen chwarterol ddiwygiedig, ac mae angen i LICC roi ystyriaeth i hyn.

Bydd yn bwysig i LICC gysylltu gyda ACLI a darparwyr meddalwedd ynglŷn ag amseru gweithredu, yn arbennig o ystyried beichiau eraill, fel cyflwyno 1APP. Mae arwyddion a gafwyd gan ddarparwyr meddalwedd yn awgrymu y byddai'n cymryd o leiaf chwe mis i weithredu argymhellion terfynol yn llawn, ac mae angen i LICC osgoi tuedd optimistig wrth benderfynu ar y rhaglen.

6.3 Gweithgor data

Rydym yn argymhell y dylai grŵp o swyddogion LICC, cynrychiolwyr perthnasol o awdurdodau lleol a darparwyr meddalwedd gael ei alw ynghyd. Ni fyddai angen i grŵp o'r fath gyfarfod yn aml, ond gallai fod yn fforwm i drafod cysondeb ac ansawdd ffurflenni, sicrhau bod LICC yn cael gwybodaeth am y problemau cyfredol a rhai sy'n ymddangos ynglŷn â'r ffurflenni a rhoi cyfle i lywio ystyriaeth o unrhyw ddulliau posibl o gipio data yn y dyfodol. Fel cam cyntaf, awgrymwn y dylai'r grŵp gyflwyno'r ffurflen a'r canllawiau newydd fel cynllun peilot (a'u diwygio fel bo'r angen) cyn eu lansio'n ffurfiol.

6.4 Ffurflenni electronig

Cyflwynir ffurflenni cyfredol DCQS gan ACLI i LICC ar bapur. Byddai ffurflenni electronig yn fwy effeithiol drwy ddileu'r angen i LICC fysellu'r data i'w ddatas, osgoi gwallau wrth roi'r data i mewn a chyflymu'r broses yn gyffredinol.

Gyda dim ond 25 o ACLI yng Nghymru i fewnbynnu data, nid oes angen system gymhleth a allai fod angen meddalwedd arbennig a hyfforddiant i ddefnyddwyr. Gellid sefydlu ffurflen genedlaethol yn Excel y byddai AALI yn ei llenwi ac yn ei chyflwyno drwy ebost. Byddai AALI yn llenwi cofnodion mewn celloedd â llaw neu, yn ddelfrydol byddent yn cael eu cynhyrchu yn awtomatig drwy addasiadau i'r system gan ddarparwyr meddalwedd ACLI.

Er mwyn sicrhau cywirdeb y data, byddai angen i awdurdodau lleol sefydlu mecanwaith ar gyfer gwirio'r ffurflenni cyn eu cyflwyno. O ystyried y symudiad tuag at gynhyrchu data yn awtomatig, awgrymwn y gallai'r gweithgor data ystyried y ffordd orau i sicrhau safon gyffredin i awdurdodau.

6.5 Rhoi cyfansymiau gros ar gyfer rhai nad ydynt yn ymateb

I bwrpasau cyhoeddi, dylai cyfansymiau neu ganrannau cenedlaethol gynnwys amcangyfrifon ar gyfer AALI nad ydynt yn ymateb, er mwyn gwarchod integriti'r gyfres ansawdd genedlaethol. Os mai dim ond un neu ddau sydd ddim yn ymateb, byddai cyfansymiau cenedlaethol yn cael eu tan-amcangyfrif yn ddifrifol heb wneud cyfanswm gros ar gyfer peidio ag ymateb: effeithid hefyd ar ganrannau perfformiad cenedlaethol ond i raddau llai. Dylid seilio'r amcangyfrif hyn ar y newid diweddaraf yn ffigurau'r ffurflenni ar gyfer ACLI sy'n ymateb a chymhwyso'r ffactorau hyn i'r chwarter olaf pan ddarparodd y rhai nad ydynt yn ymateb ar hyn o bryd y ffurflenni ddiwethaf. Gellid rhoi ystyriaeth hefyd i a ddylai'r arferion grosio hyn cael eu haenu yn ôl a allai ACLI gael eu dosbarthu fel rhai trefol/gwledig i wella cywirdeb posibl y grosio ar gyfer rhai sydd ddim yn ymateb. Ni ddylid cyhoeddi amcangyfrifon wedi eu grosio ar gyfer ACLI unigol nad ydynt yn ymateb.

6.6 Rôl i'r LDGU

Argymhellir mai'r ffordd fwyaf effeithiol o weithredu system electronig newydd o gyflwyno ffurflenni gan ddefnyddio Excel fyddai yn uniongyrchol at Uned Data Llywodraeth Leol Cymru. Mae gan LDGU record brofedig o ddatblygu systemau yn seiliedig ar Excel i brosesu ffurflenni ystadegol oddi wrth ACLI yng Nghymru mewn meysydd eraill. Mae gan yr LDGU yr arbenigedd technegol i gyflawni grosio ar gyfer ACLI nad ydynt yn ymateb. Bob chwarter byddai angen i'r data diweddaraf gael ei bwytho i ddatbas LICC sy'n dal yr holl data rheoli datblygiad hanesyddol, i bwrpasau dadansoddi a chyhoeddi.

6.7 Cyhoeddi a dadansoddi

Mae angen i union ffurf y cyhoeddiad adlewyrchu penderfyniadau terfynol am y data cynllunio i'w gasglu. Yn ychwanegol, bydd cwestiynau newydd yn codi o ystyried na fydd rhywfaint o'r data yn cael ei gasglu ond yn flynyddol.

Ond nodwn mai dim ond tablau sy'n cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd. Argymhellwn fod 'Datganiad Ystadegol' yn cael ei gyhoeddi sy'n darparu sylwebaeth fer sy'n tynnu sylw at y prif dueddiadau a'r canlyniadau o'i gymharu â thueddiadau tymor hir.

Dylai LICC hefyd ystyried a ddylai'r ystadegau a gyhoeddir fod yn rhan o Ystadegau Cenedlaethol. Os felly, byddai LICC yn ymrwymo ei hun i Adolygiadau Ansawdd pellach o'r DCQS bob pum mlynedd. Byddai gan y gweithgor data fewnbwn pwysig i arolygon o'r fath.

A1 Ffurflen a Chanllawiau DCQS Cyfredol



DEVELOPMENT CONTROL QUARTERLY SURVEY

Planning Authority

Period Beginning

200

Ending

200

	Received	Decided	Withdrawn/Transferred	Carried Forward
ALL APPLICATIONS				

	Applications		Decision Speed		Departures	
	Granted	Refused	Under 8 weeks	Over 13 weeks	Received	Permitted
MAJOR DEVELOPMENTS of which:						
Dwellings						
Offices						
Industry						
Retail / Distribution						
Waste Disposal						
Other						
MINOR DEVELOPMENTS of which:						
Dwellings						
Offices						
Industry						
Retail / Distribution						
Waste Disposal						
Other						
MINERALS						
GENERAL REGULATIONS						
HOUSEHOLDER						
ADVERTISEMENTS						
ALL OTHERS						

FORM COMPLETED BY

(Block Capitals)

TELEPHONE

Code () •

Ext ()

This form should be returned to:
Planning Division (P2b), The National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

Telephone enquiries should be directed to (029) 2082 3029



LLENWI FFURFLEN AROLWG CHWARTEROL RHEOLI DATBLYGU

CEISIADAU I'W CYNNWYS

Diffinnir ceisiadau at ddiben yr arolwg fel:

- Ceisiadau am ganiatâd cynllunio yn unol â'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad aThref (Ceisiadau) 1988, a'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad aThref (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995;
- Ceisiadau am ganiatadau dros dro ac am adnewyddu caniatadau cynllunio blaenorol, ac am amrywio neu ollwng amodau a oedd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio blaenorol;
- Ceisiadau am ganiatad o dan y Rheoliadau Cynllunio Gwlad aThref (Rheoli Hysbysebion) 1992;
- Achosion Deddf lawndal Tir 1961, h.y.ar gyfer ardystio datblygiad amgen priodol;
- Ceisiadau sy'n deillio o hysbysiadau o dan Atodlen 2 y Gorchymyn Cynllunio Gwlad aThref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 lle mae'r Cyngor wedi penderfynu bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw;
- Ceisiadau a gyflwynir o ganlyniad i Gyfarwyddiadau Erthygl 4 ac Erthygl 7;
- Ceisiadau am faterion wedi'u neilltuo.

CEISIADAU SYDD HEB EU CYNNWYS

Ni ddylid cynnwys y canlynol yn y ffurflen arolwg:

- Caniatadau tybiedig a roddwyd gan Adran o'r Llywodraeth;
- Cytundebau Adran 7(1) o dan Ddeddf Trefi Newydd 1965;
- Hysbysiadau o Ddatblygiadau'r Goron o dan Gylchlythyr 37/84 y Swyddfa Gymreig, neu ymgynghoriadau gan Gyflenwyr Trydan ynghylch llinellau trydan uwchben a gorsafoedd pŵer o dan Gylchlythyr 20/90 y Swyddfa Gymreig;
- Hysbysiadau o dan Atodlen 2 y Gorchymyn Cynllunio Gwlad aThref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995;
- Ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth;
- Ceisiadau am ganiatâd sylweddau peryglus;
- Adolygiadau a diwygiadau i ganiatadau cynllunio sy'n bodoli eisoes,ac eithrio lle bo cais newydd o dan sylw

CEISIADAU SYDD WEDI DOD I LAW

Ystyr ceisiadau sydd wedi dod i law yw ceisiadau sydd wedi'u derbyn ar gyfer penderfynu ar ganiatâd cynllunio rhwng diwedd cyfnod yr arolwg chwarterol blaenorol a diwedd y cyfnod ar gyfer yr arolwg chwarterol presennol. At ddibenion yr arolwg hwn ceir canllawiau ar benderfynu pa geisiadau sydd wedi'u derbyn ar gyfer penderfyniad yn Nodyn Arferion Da (Cymru) 1 /96.

CEISIADAU SYDD WEDI'U PENDERFYNU

Ystyr ceisiadau sydd wedi'u penderfynu yw ceisiadau y penderfynwyd arnynt rhwng diwedd cyfnod yr arolwg chwarterol blaenorol a diwedd yr arolwg chwarterol presennol. At ddibenion yr arolwg hwn ceir canllawiau ar benderfynu pa geisiadau sydd wedi'u penderfynu, a'r diffiniadau sy'n gymwys i'r cyfnod penderfynu yn Nodyn Arferion Da (Cymru) 1/96.

CEISIADAU A DYNNEWYD YN ÔL NEU A DROSLWYDDWYD

Ystyr ceisiadau a dynnewyd yn ôl neu a drosglwyddwyd yw ceisiadau a dynnewyd allan o broses benderfynu yr awdurdod cynllunio a'r ceisiadau y gwrthodwyd eu penderfynu o dan Adran 70(a) Deddf Cynllunio Gwlad aThref 1990 rhwng diwedd cyfnod yr arolwg chwarterol blaenorol a diwedd yr arolwg chwarterol presennol. Ni ellir cymhwyso'r diffiniad ond at geisiadau sydd wedi dod i law o dan y telerau a nodir uchod o dan "Ceisiadau sydd wedi dod i law".

CEISIADAU SY'N CAEL EU CARIO YMLAEN

Mae ceisiadau a gaiff eu cario ymlaen o gyfnod yr arolwg hwn i'r un nesaf yn cynnwys yr holl geisiadau hynny a ddaeth i law o fewn cyfnod yr arolwg chwarterol presennol ond na phenderfynwyd arnynt erbyn diwedd y cyfnod hwnnw ynghyd ag unrhyw geisiadau heb eu penderfynu sydd wedi'u cario i lawr o gyfnodau blaenorol. Dylid gofalu bod y ceisiadau a gaiff eu cario ymlaen o ffurflen arolwg blaenorol yn gyfartal â'r nifer a gaiff eu cario drosodd yn y ffurflen arolwg olynol nesaf.

CEISIADAU SYDD WEDI'U CANIATÁU

Mae ceisiadau sydd wedi'u caniatáu neu wedi'u cymeradwyo gyda diwygiad neu hebddo a chydag amodau neu hebddynt, ac y mae hysbysiad penderfynu wedi'i lofnodi a'i ddosbarthu ar eu cyfer yn perthyn i'r categori hwn.

CEISIADAU SYDD WEDI'U GWRTHOD

Mae ceisiadau dilys sydd wedi'u nodi yn y Gofrestr Gynllunio ac sydd wedi'u gwrthod ar ôl hynny neu sydd heb eu caniatáu fel arall yn perthyn i'r categori hwn.

PENDERFYNIADAU O DAN WYTH WYTHNOS

Bernir y bydd penderfyniad wedi cymryd llai nag wyth wythnos pan fydd hysbysiad penderfynu wedi'i roi ar y 56ain diwrnod neu cyn hynny ar ôl i gais cynllunio dilys ddod i law.

PENDERFYNIADAU DROS 13 WYTHNOS

Bernir y bydd penderfyniad wedi cymryd mwy na thair wythnos ar ddeg pan fydd hysbysiad penderfynu wedi'i roi ar ôl yr 91ain diwrnod ar ôl i gais cynllunio dilys ddod i law.

GWYRIADAU SYDD WEDI DOD I LAW

Mae gwriadau yn cynnwys yr holl geisiadau cynllunio dilys nad ydynt yn cydymffurfio â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal y lleolir safle'r cais ynddo. Cynhwysir pob cais o'r fath a ddaw i law o fewn y cyfnod a gynhwysir gan yr arolwg yn y categori hwn ar yr amod bod y geisiadau yn ddilys.

GWYRIADAU SYDD WEDI'U CANIATÁU

Ystyr gwriadau sydd wedi'u caniatáu yw'r rhai lle penderfynwyd o blaid caniatáu datblygiad ar gyfer cais sydd wedi'i ddiffinio yn flaenorol fel gwriad ac y mae hysbysiad penderfynu wedi'i roi ar ei gyfer.

DATBLYGIAD MAWR

Datblygiad Mawr yw datblygiad:

- lle mae nifer yr anheddau i w hadeiladu yn 10 neu fwy, neu arwynebedd y safle yn 0.5 hectar neu fwy;
- lle mae'r arwynebedd llawr masnachol neu ddiwydiannol yn 1,000 metr sgwAr neu fwy, neu lle mae maint y safle yn 1 hectar neu fwy.

MÂN DDATBLYGIAD

Mân Ddatblygiad yw datblygiad:

- nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Datblygiad Mawr;
- nad yw'n fath a ddiffinir fel Datblygiad Deiliad Tŷ.

MWYNAU

Mae cais mwynau yn gais sy'n ceisio defnyddio tir i dynnu deunydd crai o'r tir naill ai trwy fwyngloddio, cloddio ar y brig neu waith drilio. Mae hefyd yn cynnwys geisiadau am gael defnyddio tir yn benodol ar gyfer storio mwynau yn yr awyr agored. Nid yw'n cynnwys yr holl geisiadau sylweddau peryglus a'r holl geisiadau ar gyfer defnyddio tir i storio gweddillion ar yr wyneb sy'n aros ar ôl i'r mwynau gael eu tynnu.

RHEOLIADAU CYFFREDINOL

Pob cais cynllunio a wneir gan yr awdurdod cynllunio ar gyfer datblygu tir sydd ym mherchnogaeth yr awdurdod cynllunio, neu dir sydd ym mherchnogaeth awdurdod cynllunio sydd â buddiant, neu dir sydd yng nghyd-berchnogaeth awdurdod cynllunio sydd â buddiant ac unrhyw berson arall o fewn cwmipas Rheoliadau 3 a 4 y Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992.

DATBLYGIADAU DEILIAID TAI

Mae Datblygiadau Deiliaid Tai yn effeithio ar gwrtil eiddo preswyl. Nid ydynt yn newid nifer yr anheddau. Nid datblygiadau sydd wedi'u caniatáu mohonynt. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Estyniadau ac addasiadau domestig;
- Trosi lloffttydd a dormeri;
- Adnewyddu hen eiddo yn llwyr;
- Modurdai domestig a modurdai i'w cloi, Pyrrh Ceir a Chynteddau;
- Muriau Ffin a Ffensys;
- Creu a lledu mynedfa i gerbydau.

HYSBYSEBION

Mae geisiadau am ganiatâd i arddangos hybysebion ar adeiladau busnes, cwrt blaen adeiladau busnes, neu fan arall o fewn cwrtil adeiladau busnes, neu ar dir mewn man arall i gyfeirio aelodau o'r cyhoedd at adeiladau busnes yn cael eu disgrifio ar y cyd gan y categori hwn.

ARDAL Y SAFLE

Mae ardal y safle wedi'i chynnwys yn uniongyrchol mewn rhyw agwedd ar y datblygiad ac fe'i hamlinellir fel arfer yn y ffurflen gais. Ystyrir bod datblygiad sydd wedi'i rannu yn 2 ran gan briffordd yn un safle.

ARWYNEBEDD LLAWR

Ystyr arwynebedd llawr adeilad yw swm yr arwynebedd llawr o fewn adeilad sydd wedi'i fesur yn allanol i wynebau'r muriau allanol ar bob lefel. Dylid cynnwys parciau ceir ar yr is-lawr, parciau ceir wedi'u gorchuddio ar ben y to, ystafelloedd offer ar ben y to, a fflatiau gofalgwyr.

PRIF DDEFNYDD

Diffinnir y categori defnydd cyffredinol ar gyfer Datblygiadau Mawr a Mân Ddatblygiadau ar sail y prif ddefnydd ar arwynebedd y llawr neu'r tir o fewn y datblygiad yn ôl man neilltuol y cais ac nid y complexes y gallai fod yn rhan ohono. Dylai categorïau o ddatblygiad a phrif ddefnydd gael eu cyfarwyddo lle bo'n briodol gan y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) 1993.

CATEGORÏAU O DDEFNYDD

Mae'r categorïau o ddefnydd a gynhwysir yn ffurflen yr arolwg o dan y penawdau Anheddau, Swyddfeydd, Diwydiant, Adwerthu, Dosbarthu ac Eraill yn dilyn diffiniadau yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y'i diwygiwyd). Mae Gwaredu Gwastraff fel y'i diffinnir gan y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) 1993 Atodlen 1 Categori Datblygiad 11(a), a diffinnir y categori Mwynau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Atodlen 1 (fel y'i diwygiwyd).



CEISIADAU CYNLLUNIO AMSERU O'R ADEG Y DAW'R CAIS I LAW NES Y PENDERFYNIR ARNO

- (a) Nodir y drefn ffurfiol ar gyfer gwneud cais am ganiatâd cynllunio yn y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau) 1988 ac yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995.
- (b) Mae'n ofynnol rhoi hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad yr awdurdod cynllunio ar gais cynllunio cyn pen cyfnod o 8 wythnos neu'r cyfryw gyfnod hwy ag y cytunir arno'n ysgrifenedig gyda'r ceisydd.
- (c) Bydd mesur yr amser a gymerir i benderfynu ar gais cynllunio yn dechrau pryd y claw cais dilys a'r ffi lawn sydd ynghlwm wrtho i law ac nid o reidrwydd pan gaiff y cais ei gofrestru lle nad yw'r ddau ddigwyddiad hyn yn cyd-ddigwydd.
- (d) Ni ellir gohirio'r cyfnod amser ar gyfer penderfynu ar gais, nac ychwaith newid na gohirio ei gofnodi yn y Gofrestr Gynllunio er mwyn gwneud yn iawn am unrhyw oedi a achoswyd gan negodiadau, diwygiadau, neu ymgynghoriadau ar gyfer cais dilys a ddylai gael ei gofnodi neu sydd wedi'i gofnodi yn y Gofrestr Gynllunio.
- (e) Ni ddylai negodiadau, diwygiadau nac ymgynghoriadau beri i unrhyw gais gael ei wrthod yn awtomatig ac ni ddylent beri ychwaith gofyn i geiswyr dynnu cais yn ei ôl a'i ailgyflwyno.
- (f) Y dyddiad pryd y bernir bod y cyfnod penderfynu ar gyfer cais diiys wedi clod i ben fydd naill ai:
 - (i) pryd y caiff yr hysbysiad penderfynu ei gyhoeddi; neu
 - (ii) pryd y caiff cyfarwyddyd sy'n cyfeirio at y cais ei gyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 77 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd), neu Erthygl 14 Gorchymyn Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995.
- (g) Yn achos ceisiadau a hysbysir i awdurdod cynllunio lleol, bernir bod y penderfynu wedi dod i ben ar y dyddiad yr anfonir penderfyniad y Cyngor i'r corff hysbysu.

Ionawr 1996



CEISIADAU CYNLLUNIO COFNODI GWYRIADAU

- (a) At ddibenion y Nodyn Arferion Da hwn, y diffiniad o gais am wyriad sydd wedi'i fabwysiadu yw'r diffiniad a gynhwysir yn y Cyfarwyddiadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu ac Ymgynghori) 1992. Amgaeir y Cyfarwyddiadau hyn yn Atodiad 3 Cylchlythyr 39/92 y Swyddfa Gymreig (Cylchlythyr 19/92 Adran yr Amgylchedd) dyddiedig 13 Gorffennaf 1992. Ceir canllawiau gweinyddol ar amrywiol agweddau ar Gyfarwyddiadau 1992 yn Atodiad 2 y Cylchlythyr hwnnw.
- (b) At ddibenion cofnodi ceisiadau sy'n wyriadau ar gyfer yr Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu:
- (i) dylai pob cais a ddaw, o fewn y diffiniad sydd wedi'i fabwysiadu o geisiadau sy'n wyriadau gael ei gofnodi ar ffurflen yr arolwg fel cais sydd wedi dod i law;
 - (ii) dylai pob cais a ddaw o fewn y diffiniad sydd wedi'i fabwysiadu o geisiadau sy'n wyriadau ac y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt gan yr awdurdod cynllunio lleoli yn unol â pharagraff 2(2) Cyfarwyddiadau 1992 gael ei gofnodi ar ffurflen yr arolwg fel cais sydd wedi'i ganiatáu.
- (c) At ddibenion cofnodi ceisiadau sy'n wyriadau ar gyfer yr Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu codir y diffiniad o'r categori mawr o Baragraff 3 (a) Cyfarwyddiadau 1992. Felly mae'r categori mawr yn cynnwys datblygiad sy'n cynnwys y canlynol neu'n cynnwys darparu'r canlynol:
- (i) mwy na 150 o dai neu fflatiau; neu
 - (ii) mwy na 10,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr manwerthu.
- (d) Yn achos ceisiadau eraill sy'n wyriadau diffinnir y categori yn ôl y nodweddion a ddisgrifir yn Nodyn Gweithdrefn PN(W) 1/96 o dan y paragraffau sy'n dwyn y penawdau 'Mân Ddatblygiad', 'Mwynau', a 'Rheoliadau Cyffredinol'.

Ionawr 1996

A2 Enghraifft o Ddatganiad Ystadegol LICC

TABL 1

Ebrill - Mehefin 2007		AWDURDODAU CYNLLUNIO YNG NGHYMRU	
CYFLYMDER PENDERFYNU CEISIADAU CYNLLUNIO			
Awdurdod Cynllunio		% a benderfynwyd cyn pen 8 wythnos ar ôl eu cael	
Wrecsam		80	
Conwy		74	
Ynys Môn		73	
Rhondda Cynon Taf		71	
Caerffili		70	
Blaenau Gwent		69	
Gwynedd		69	
Pen-y-bont ar Ogwr		68	
Castell-nedd Port Talbot		67	
Casnewydd		67	
Sir Ddinbych		67	
Sir y Fflint		66	
Bro Morgannwg		64	
Powys		64	
Sir Benfro		63	
Abertawe		61	
Sir Gaerfyrddin		61	
Merthyr Tudful		60	
Caerdydd		57	
Tor-faen		53	
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro		42	
Parc Cenedlaethol Eryri		41	
Ceredigion		33	
Sir Fynwy		32	
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog		22	
CYFARTALEDD CYMRU		62	

Ffynhonnell: Arolwg Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru Awst 2007.

NODIADAU:-

1. ** = Dim data ar gail
2. Mae pob ffigur wedi'i dalgrynnu.

TABL 2

Ebrill - Mehefin 2006 - Ebrill - Mehefin 2007	AWDURDODAU CYNLLUNIO YNG NGHYMRU				
% O'R CEISIADAU CYNLLUNIO Y PENDERFYNWYD ARNYNT CYN PEN 8 WYTHNOS AR ÔL EU CAEL					
Awdurdod Cynllunio	Ebr - Meh 2006	Gor - Medi 2006	Hyd -Rha 2006	Ion - Maw 2007	Ebr - Meh 2007
Wrecsam	75	77	76	76	80
Conwy	69	74	79	73	74
Ynys Môn	74	70	73	66	73
Rhondda Cynon Taf	65	67	69	66	71
Caerffili	63	52	53	53	70
Blaenau Gwent	66	58	70	72	69
Gwynedd	75	69	67	68	69
Pen-y-bont ar Ogwr	63	69	59	70	68
Castell-nedd Port Talbot	54	57	56	58	67
Casnewydd	48	42	37	39	67
Sir Ddinbych	68	70	67	74	67
Sir y Fflint	44	68	60	60	66
Bro Morgannwg	48	55	62	47	64
Powys	47	38	40	51	64
Sir Benfro	59	54	54	58	63
Abertawe	56	48	54	57	61
Sir Gaerfyrddin	65	61	63	66	61
Merthyr Tudful	79	70	57	75	60
Caerdydd	67	69	62	68	57
Tor-faen	45	65	65	53	53
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	42	48	20	48	42
Parc Cenedlaethol Eryri	40	54	36	36	41
Ceredigion	33	30	28	24	33
Sir Fynwy	**	**	**	**	32
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	47	18	42	31	22
CYFARTALEDD CYMRU	60	59	58	59	62

Ffynhonnell: Arolwg Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru Awst 2007.

NODIADAU:-

1. ** = Dim data ar gael.
2. Mae pob ffigur wedi'i dalgrynnu.

Ebrill - Mehefin 2007		AWDURDODAU CYNLLUNIO YNG NGHYMRU		
BAICH GWAITH CEISIADAU CYNLLUNIO				
Awdurdod Cynllunio	Daeth i law o fewn y Chwarter	A benderfynwyd	Tynnwyd yn ôl a Thros-glwyddwyd	Cariwyd Ymlaen
Blaenau Gwent	194	197	2	180
Pen-y-bont ar Ogwr	396	419	8	165
Caerffili	406	406	8	423
Caerdydd	785	807	54	787
Sir Gaerfyrddin	719	669	25	862
Ceredigion	288	331	41	753
Conwy	333	323	36	306
Sir Ddinbych	316	284	19	313
Sir y Fflint	450	402	48	498
Gwynedd	386	467	71	733
Ynys Môn	301	326	10	336
Merthyr Tudful	181	151	25	183
Sir Fynwy	398	325	18	473
Castell-nedd Port Talbot	456	423	10	487
Casnewydd	405	296	0	**
Sir Benfro	402	380	22	736
Powys	514	478	32	4
Rhondda Cynon Taf	612	530	23	614
Abertawe	803	656	26	1088
Tor-faen	180	179	7	287
Bro Morgannwg	414	432	19	293
Wrecsam	344	367	6	339
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	156	83	2	276
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	160	170	8	200
Parc Cenedlaethol Eryri	123	116	4	**
CYFANSYMAU	9722	9217	524	10340

Ffynhonnell: Arolwg Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru Awst 2007.

NODIADAU:-

1. ** = Dim data ar gail

TABL 4

Ebrill - Mehefin 2007		AWDURDODAU CYNLLUNIO YNG NGHYMRU			
CYFLYMDER PENDERFYNU MÂN GEISIADAU A CHEISIADAU TEULUOEDD					
Awdurdod Cynllunio	Mân Geisiadau		Ceisiadau teuluoedd		
	Canran a benderfynwyd o dan 8 wythnos	Canran a benderfynwyd dros 13 wythnos	Canran a benderfynwyd o dan 8 wythnos	Canran a benderfynwyd dros 13 wythnos	
Blaenau Gwent	54	21	79	5	
Pen-y-bont ar Ogwr	47	21	79	4	
Caerffili	53	26	84	8	
Caerdydd	46	24	64	8	
Sir Gaerfyrddin	53	28	77	13	
Ceredigion	23	64	49	33	
Conwy	63	22	92	4	
Sir Ddinbych	48	22	86	2	
Sir y Fflint	48	34	86	5	
Gwynedd	61	21	83	10	
Ynys Môn	63	21	89	6	
Merthyr Tudful	52	31	72	6	
Sir Fynwy	14	53	46	20	
Castell-nedd Port Talbot	51	18	83	4	
Casnewydd	37	38	52	75	
Sir Benfro	51	37	84	10	
Powys	55	29	80	6	
Rhondda Cynon Taf	55	36	84	7	
Abertawe	40	37	72	12	
Tor-faen	32	43	62	13	
Bro Morgannwg	49	23	70	22	
Wreccsam	69	12	92	2	
Parc Cened Bannau Brycheiniog	0	52	31	13	
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	37	23	42	15	
Parc Cenedlaethol Eryri	39	48	47	13	
CYFARTALEDD	49	30	74	12	

Ffynhonnell: Arolwg Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru Awst 2007.

NODIADAU:-

1. ** = Dim data ar gail
2. Mae pob ffigur wedi'i dalgrynnu.
3. Mae gan FÂN DDATBLYGIADAU lai na 10 o anheddau neu safle o lai na 0.5 hectar (1.235 erw) lle na roddir nifer yr anheddau. Mewn achosion eraill, mân ddatblygiad yw un ag arwnebedd o lai na 1,000 metr sgwâr (10,764 troedfedd sgwâr) neu, os na roddir yr arwynebedd, arwynebedd o lai nag un hectar (2.471 erw).
4. DATBLYGIADAU TEULUOEDD yw datblygiadau o fewn cwrtail eiddo preswyl nad ydynt yn arwain at unrhyw newid yn nifer yr anheddau.

Ebrill - Mehefin 2007		AWDURDODAU CYNLLUNIO YNG NGHYMRU	
NIFER Y CEISIADAU A BENDERFYNWYD (WEDI'U GRADDIO YN OL CYFAINT)			
Awdurdod Cynllunio		Ceisiadau a benderfynwyd yn ystod y chwarter	
Caerdydd		807	
Sir Gaerfyrddin		669	
Abertawe		656	
Rhondda CynonTaf		530	
Powys		478	
Gwynedd		467	
Bro Morgannwg		432	
Castell-nedd Port Talbot		423	
Pen-y-bont ar Ogwr		419	
Caerffili		406	
Sir y Fflint		402	
Sir Benfro		380	
Wrecsam		367	
Ceredigion		331	
Ynys Môn		326	
Sir Fynwy		325	
Conwy		323	
Casnewydd		296	
Sir Ddinbych		284	
Blaenau Gwent		197	
Tor-faen		179	
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro		170	
Merthyr Tudful		151	
Parc Cenedlaethol Eryri		116	
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog		83	
CYFANSWM		9217	

Ffynhonnell: Arolwg Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru Awst 2007.

NODIADAU:-

1. ** = Dim data ar gail

<i>Ebrill - Mehefin 2007</i>	AWDURDODAU CYNLLUNIO YNG NGHYMRU
------------------------------	----------------------------------

BAICH GWAITH CEISIADAU GWYRIAD		
Awdurdod Cynllunio	A ddaeth i law yn ystod y chwarter	A ganiatawyd yn ystod y chwarter
Blaenau Gwent	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	4	4
Caerffili	0	0
Caerdydd	0	0
Sir Gaerfyrddin	0	0
Ceredigion	11	0
Conwy	1	1
Sir Ddinbych	4	1
Sir y Fflint	0	0
Gwynedd	1	0
Ynys Môn	15	6
Merthyr Tudful	0	0
Sir Fynwy	0	0
Castell-nedd Port Talbot	2	3
Casnewydd	2	0
Sir Benfro	4	5
Powys	29	5
Rhondda Cynon Taf	4	3
Abertawe	23	0
Tor-faen	0	0
Bro Morgannwg	28	6
Wreccsam	1	0
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	0	0
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	1	1
Parc Cenedlaethol Eryri	0	0
CYFANSYMIAU	130	35

Ffynhonnell: Arolwg Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru Awst 2007.

NODIADAU:-

1. ** = Dim data ar gail
2. Ceisiadau gwyro yw'r ceisiadau hynny am ddatblygiad nad ydynt yn cydymffurfio â'r â'r cynlluniau datblygu presennol.
3. Y diffiniad o gais gwyro sydd wedi'i fabwysiadu yw'r un a gynhwysir yn y Cyfarwyddiadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu ac Ymgynghori) 1992 (Cylchlythyr 39/92 y Swyddfa Gymreig).

A3 Ffurflen Arolwg Awdurdodau Lleol wedi eui Hanodi



ADOLYGIAD O FFURFLENNI YMATEB AWDURDODAU LLEOL I'R AROLWG RHEOLI DATBLYGIAD CHWARTEROL: HOLIADUR

1. MANYLION CYSYLLTU

Enw'r Awdurdod Lleol			
Enw a Swydd y Person Cyswllt			
Cyfeiriad:	Teleffon		
	Estyniad		
	Ffacs		
	E-bost		

Nod yr holiadur hwn yw i helpu'r tîm o ymgynghorwyr i asesu effeithiolrwydd y ffurflenni ymateb i'r Arolwg Rheoli Datblygu Chwarterol. **CEDWIR POB YMATEB YN GYFRINACHOL.**

Byddwch gystal ag anfon e-bost ar unwaith i kieron.hyams@arup.com i gydnabod i chi dderbyn yr holiadur hwn ac er mwyn darparu manylion cysylltu.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch ei gwblhau, mae croeso i chi alw **020 7755 3952**. Byddwch gystal â chwblhau a dychwelyd y ffurflen hon i Arup **erbyn 25^{ain} Mai 2007 fan bellaf**.

Dylid anfon holiaduron wedi'u cwblhau i:

Kieron Hyams, Rheolwr Arolwg, Arup, 13 Fitzroy Street, Llundain. W1T 4BQ.

Diolch yn fawr i chi o flaen llaw am eich ymdrechion a'ch cydweithrediad.

2. SUT BYDD AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL YN DEFNYDDIO DATA

2.1 Ydych chi'n defnyddio'r data a gesglir ac a gyhoeddir gan LCC ar gyfer eich pwrpasau (ACLI) eich hun? Y N
100% 0%

2.2 Os ateboch YDYM i 2.1, sut byddwch yn defnyddio'r data rheoli datblygiad? (ticiwch pob blwch cymwys)

Adrodd i Bennaeth y Gwasanaeth/Gyfarwyddiaeth **84%**

Adrodd i'r Pwyllgor Cynllunio/Aelodau **74%**

Adrodd i'r Swyddogion Cynllunio/Staff **84%**

Rheoli perfformiad mewnol **95%**

Rhoi hysbysrwydd i berfformiad yr awdurdod/defnydd allanol **32%**

Cymariaethau/meincnodi gydag awdurdodau eraill **79%**

Eraill: (manylwch) **5%**

--

2.3 Os ateboch NAC YDYM i 2.1, pam nad ydych?

--

- | | | | |
|-----|---|------|-----|
| 2.4 | Ydych chi'n gwybod ymhle i ddod o hyd i ddata rheoli datblygiad cyhoeddiedig? | Y | N |
| | | 100% | 0% |
| 2.5 | Ydych chi'n ymwybodol o'r raddfa amser cyhoeddi ar gyfer data rheoli datblygiad? | Y | N |
| | | 74% | 26% |
| 2.5 | Ydych chi'n defnyddio cyhoeddiadau/tablau data rheoli datblygiad ? | Y | N |
| | | 95% | 5% |
| 2.6 | Pa fath o adrodd am ddata ydych chi'n chwilio amdano? (ticiwch pob blwch cymwys) | | |
| | Gwybodaeth ynghylch awdurdod unigol (eich awdurdod chi) | | 95% |
| | Gwybodaeth ynghylch awdurdod unigol (awdurdodau eraill) | | 79% |
| | Gwybodaeth gyfansymiol (cyffredinol genedlaethol) | | 63% |
| | Gwybodaeth gyfansymiol (lefelau pedwarant) | | 68% |
| 2.7 | A oes unrhyw newidiadau i'r cyhoeddiadau/tabl rheoli datblygiad yr hoffech eu gweld o safbwynt: | | |
| | Y data a ddarparir? | OES | NAC |
| | | 44% | 56% |
| | Y dull o gyflwyno? | OES | NAC |
| | | 33% | 67% |
| | Disgrifiwch isod y newidiadau yr hoffech eu gweld: | | |

3. AMLDER CYFLWYNO DATA

- | | | | |
|-----|---|------|-----|
| 3.1 | Ydych chi'n credu ei bod yn addas i adrodd am ddata o'r math rheoli datblygiad ar sail chwarterol? | YDYM | NAC |
| | | 95% | 5% |
| 3.2 | Os bu ichi ateb NAC YDYM i 3.1, beth fyddai'r amllder adrodd mwyaf priodol? (ticiwch un, os gwelwch yn dda) | | |
| | Yn fisol | | 33% |
| | Bob chwe mis | | 33% |
| | Yn flynyddol | | 0% |
| | Arall: (manylwch os gwelwch yn dda) | | 33% |

4. DULL O GYFLWYNO DATA

- | | | | |
|-----|--|------|-----|
| 4.1 | Ydych chi ar hyn o bryd yn dal pob data ymgeisio a monitro o fewn un gronfa ddata/system dadansoddi? | YDYM | NAC |
| | | 79% | 21% |
| 4.2 | Ydy'r wybodaeth ymateb sylfaenol yn cael ei chynhyrchu'n awtomataidd gan eich system swyddfa gefn? | YDY | NAC |
| | | 41% | 47% |
| 4.3 | Os nad ateboch YDY i 4.2 (h.y. nid yw wedi'i awtomeiddio'n llawn), rhwch fanylion isod ynghylch beth sy'n rhaid ei gyfrifo â llaw: | | |

- 4.4 Pa lefel o wirio ydych chi'n ei wneud ar eich ffurflenni rheoli datblygiad cyn eu cyflwyno? (ticiwch pob blwch cymwys)
- | | |
|--|-----|
| Dim | 32% |
| Sampl ar hap o geisiadau | 32% |
| Llaw – pob cais | 0% |
| Ceisiadau mawr yn unig | 0% |
| Categoriâu lle mae'r perfformiad cyffredinol 'ar y ffin' | 0% |
| Arall (manylwch os gwelwch yn dda): | 37% |

- 4.5 O dan ba amgylchiadau byddech yn ymgymryd â gwiriad llaw?

- 4.6 Byddwch gystal â datgan y system gyfrifiadur a ddefnyddir gan eich awdurdod i storio data sylfaen rheoli datblygiad: (ticiwch un, os gwelwch yn dda)

Accolaid	11%	Northgate	22%
Assist	0%	Ocella	0%
Atrium	0%	Plantech	0%
CAPS/ESRI	6%	Resolution	0%
Datawright	6%	Rol	0%
Exegesis	11%	Silverbear	0%
Flare	6%	Software AG	0%
Hedra	0%	Swift LG	17%
Innogistics	6%	SX3	0%
Intergraph	0%	Team Knowledge	0%
Lalpac	0%	Valid Information Systems	0%
MIS	6%	Vega	0%
MVM	11%	Aral: (manylwch os gwelwch yn dda)	0%

- 4.7 A yw eich cyflenwr eich system gyfrifiadur a restrir yn 4.6 yn darparu diweddariadau system er mwyn cymryd newidiadau sy'n ofynnol gan y llywodraeth i ystyriaeth (megis newidiadau i ffurflenni ystadegol) o fewn eich cytundeb cyfredol (h.y. heb unrhyw gost ychwanegol)?
- | | |
|-----|-----|
| YDY | NAC |
| 84% | 16% |
- 4.8 A ddylai integreiddio systemau swyddfa-gefn er mwyn galluogi i LCC ddal data ACLI fod yn nod i LCC yn y tymor hwy? (h.y. ni fyddai angen gwneud cyflwyniad Arolwg Chwarterol)
- | | |
|--------|-----|
| DYLAI | NA |
| DDYLAI | |
| 44% | 56% |

4.9	A gawsoch chi broblemau wrth anfon eich ffurflenni Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygiad yn ystod y flwyddyn a aeth heibio?	DO 32%	NADDO 68%
